YR YMOFYNYDD.

Rhif. 7.] GORPHENAF, 1859. [Ail Gyfres.

GOLYGIADAU CREFYDDOL JOHN MILTON.

(Parhad o'r Rhifyn diweddaf.)

Wrth olrhain golygiadau Milton ac ystyried y dadleuon yn eu cylch, y mae o'r pwys mwyaf i gadw amseriad mewn golwg, i sylwi fod gwahaniaeth pwysig rhwng ei olygiadau boreuaf a'r rhai diweddaraf, ac i gofio fod cyfnewidiadau wedi cymmeryd lle yn ei feddwl yng nghylch y pynciau pwysig ag sydd yn gwahanu Undodiaid oddiwrth Gristnogion ereill.

Pan oedd yn y coleg, ac yn un ar hugain oed, cyfansoddodd Hymn ar Enedigaeth Crist; yn yr hon y ceir y llinellau canlynol ynghylch Trindod a Duwdod Crist:—

> "That glorious form, that light insufferable,
> And that far-beaming blaze of majesty,
> Wherewith he wont at Heaven's high council table,
> To sit the midst of Trinal Unity,
> He laid aside; and here with us to be,
> Forsook the courts of everlasting day,
> And chose with us a darksome house of mortal clay."

Ychydig o flynyddau wedi hynny ysgrifenodd y traethawd ar Ddiwygiad yn Lloegr, o'r hwn y dyfynais ddernyn eisioes; mewn darn arall o hono, dywed, "Wele yr Ariaid a'r Pelagiaid y rhai a laddwyd gan yr ethnig er mwyn Crist; ond ni ystyriwn y naill na'r llall o honynt yn wir gyfeillion Crist"; ac yn yr un traethawd sonia am "y mesur caled" a gafodd "y ffyddlon ac anorchfygol Athanasius." Yn yr un flwyddyn, sef 1641, cyhoeddodd draethawd dan yr enw "Prelatical Episcopacy", yn yr hwn y gofyna, "A ddylem ni gymmeryd ein cyffroi gan un a â oddiamgylch i brofi anghyfartalrwydd Duw y Tad a Duw y Mab?" Ac etto, "rhag i'r Ariaid lygru y bobl trwy eu hymnau a'u ffurfiau gweddi." Dengys y sylwadau hyn fod Milton ym moreu ei oes yn uniongred, fel y dywedir, ac yn credu mewn Trindod o Dduwiau gogyfuwch. Ond yn ystod yr ugain mlynedd canlynol cymmerodd cyfnewidiad le yn ei olygiadau, ac yn neillduol yn y flwyddyn 1660.

Mewn traethawd a gyhoeddwyd yn y flwyddyn honno, enwa y Tad fel "yr hwn a greaist ddynolryw yn rhydd!", a'r Mab fel "tithau yn nesaf yr hwn a'n gwaredaist rhag bod yn weision dyn!" Tybia yr Esgob Sumner ei fod yma yn gosod y Tad a'r Mab yn ogyfuwch; ond ymddengys i mi nad yw yr ymadrodd yn profi y gosodiad, ac y gellir ei egluro mewn ystyr arall.

Y mae yn sicr fod Milton yn Coll Gwynfa, neu *Paradise Lost*, yr hwn a gwblhawyd yn 1665 ac a gyhoeddwyd yn 1667, yn israddoli y Mab; ond nid yw mewn geiriau pendant yn gwadu ei Dduwdod; ac mewn canlyniad y mae llawer o ddadleu wedi bod ynghylch ei olygiadau olaf ar y Drindod a Duwdod Crist.

Teimlid ar un llaw ei fod wedi esgeuluso cyfleusderau, yn ei brif weithiau olaf, i osod allan y golygiadau uniongred oedd yn eu meithrin, ac fod amryw o'i ymadroddion y cyfryw ag a ddefnyddiasai Arian neu ganlynwr Socinus; ond ar y llaw arall honnid fod ymadroddion ereill yn wir uniongred, ac nad oedd yn un gwaith cyhoeddedig, wedi rhoddi un prawf eglur ei fod wedi cyfnewid yn ei farn. Gwnaeth ei fywgraffwyr ymdrechion gwrol i'w ryddhau oddiwrth y cyhuddiad ei fod yn afiach yn ei ffydd. Pleidiai yr Esgob Newton fod *Paradise Lost* yn uniongred. Canmolai ei olygiadau crefyddol gyda llawer o wresogrwydd; penderfynodd fod daliadau Milton yn gyffredinol yn "truly orthodox"; ac wrth sylwi ar y cyhuddiad ei fod yn Arian, dywed fod mwy o awgrymiadau yn ei weithiau ef yn wrthwynebol i Ariaeth nag oedd o rai pleidiol. Dywedai Dr. Trapp fod ei gyfansoddiadau barddonol yn gystal a'r rhai rhyddieithol oll o blaid uniongrediniaeth; a thybiai Dr. Johnson, yr hwn a garasai gael cyfle i'w fflangellu am augrediniaeth, nad oedd yr ymryson rhyngddo ag Eglwys Loegr yn dwyn perthynas â dim ond llywodraeth eglwysig yn unig. Yn wir, mor belled oedd efe oddiwrth ddrwgdybio orthodoxy Milton, fel y dywed ei fod "heb ei lygru gan un neillduolrwydd gaugrediniol."

Ond ar y llaw arall teimlai Addison nad yw Coll Gwynfa y cyfryw a fuasai, pe credasai yr awdwr athrawiaeth y Drindod, a Duwdod Crist; a dywed, "os yw mawredd Milton yn ei adael yn rhywle, yn y rhannau hynny o'r Bryddest y mae, lle y dygir y Personau Dwyfol i mewn fel llefarwyr." Dyfynai Mr. Calton y dernyn canlynol o *Paradise Regained*, lle y gosodir y Tad i draethu ei fwriad ynghylch y Mab:—

"———*This man*, born and now up-grown,
To shew him worthy of his birth divine
And high prediction, henceforth I expose
To Satan; let him tempt, and now assay
His utmost subtlety, because he boasts
And vaunts of his great cunning to the throng
Of his apostasy: he might have learnt
Less overweening, since he failed in Job,
Whose constant perseverance overcame
Whatever his cruel malice could invent.
He now shall know I can produce *a man*
Of female seed, far abler to resist
All his solicitations, and at length
All his vast force, and drive him back to hell,
Winning by conquest what the first man lost,
By fallacy surprised. But first I mean
To exercise him in the wilderness;
There he shall first lay down the rudiments
Of his great warfare, ere I send him forth
To conquer sin and death, the two grand foes,
By humiliation and strong sufferance:
His weakness shall overcome satanic strength,
And all the world and mass of sinful flesh;

That all the angels and etherial powers,
They now and men hereafter, may discern,
From what consummate virtue I have chose
This perfect man, by merit called my Son,
To earn salvation for the sons of men."

Book i., *line* 143—167.

Sylwai Mr. Calton nad oes yma un gair na allasid ei ddefnyddio gan Sosin, neu o leiaf gan Arian; ac addefai Warton fod y sylw yn gywir. Tynir yr un casgliad gan yr Esgob Sumner oddiwrth Goll Gwynfa, lle y traethir am y Mab, mewn gwahanol fannau, mewn dull anghysson a chred yn ei berffaith Dduwdod. "Pe buasai golygiadau Milton yn wahanol am oruwch Dduwdod y Mab, meddai Sumner, buasai yn sier o wneud defnydd o destun mor fawreddog yn emynau yr angylion ger bron y Tad; ac ni fuasai yn ddistaw yn niwedd y bryddest, lle y mae yr Archangel Michael yn gosod allan athrawiaeth y Iawn i ein cyndad Adda. Lleiaf oll, pe buasai ei olygiadau yn wahanol, y dewisasai y temptiad i ffurfio y prif wrthddrych yn ei ail bryddest, Adferiad Gwynfa neu *Paradise Regained.*"

Gorfodwyd dynion i dynu eu casgliadau oddiwrth awgrymau o'r fath yma, am nad oedd Milton ei hun wedi cyhoeddi dim yn bendant ynghylch ei olygiadau crefyddol. Gwyddid fod ganddo draethawd ar y testun, wedi ei gyfansoddi yn ei hen ddyddiau; ond ni chafodd ymddangos trwy y wasg; ac yr oedd rheswm digonol am hynny. Yn yr oes honno yr oedd yn drosedd o'r mwyaf i amheu athrawiaeth y Drindad, neu wadu Duwdod Crist. Mae yn hysbys i ddarllenwyr yr *Ymofynydd* i John Calvin achosi Michael Servetus gael ei losgi am wadu athrawiaeth y Drindod; ond nid yw mor hysbys i Faustus Socinus ei hun, fod yn offerynol i daflu Francis David i garchar o'r hwn ni ddiangodd yn fyw, am bregethu Dyndod Crist. Oedd yr un yspryd erlidgar yn Lloegr yn oes Bacon, Milton, Newton, a Locke: ac yr oedd cyfraith y tir yn cyhoeddi y ddedryd o *farwolaeth* yn erbyn y neb a amheuai yr athrawiaethau hyn. Cafodd amryw o bersonau eu gosod i farwolaeth yn yr amser hwnnw, am gynnal golygiadau undodaidd; ac ym mhlith ereill y rhai canlynol:—

		O.C.
1.	Joan Bocher, benyw, a losgwyd yn Lloegr yn y flwyddyn	1553
2.	George Van Parris	,,
3.	Patrick Patingham, yn Uxbridge	,,
4.	Jan Wielmacher, gan y Frenines Bess	1575
5.	Henrick Terwordt	,,
6.	Matthew Hamont	1579
7.	John Lewes	1585
8.	Francis Ket, offeiriad	1588
9.	Bartholomew Legate, gan James I., Mawrth 18ed	1612
10.	Edward Wightman, Ebrill	,,
11.	Paul Casaubon	,,
12.	Arian o Ysbaenwr, enw yn anadnabyddus, a garcharwyd i farwolaeth	,,

Y cyntaf o'r rhai hyn oedd yr achos, ynghylch pa un y gwrthodai y brenin Edward VI. arwyddo y *death warrant*, a phan y tystiai pan y gwnaeth hynny yn y diwedd ar gymhelliadau Cranmer, y buasai yr euogrwydd ar enaid yr Archesgob, ac nid ar ei ddwylaw ef. Tua diwedd oes Elizabeth dechreuwyd

a theimlo fod llosgi dynion am eu barnau yn beth annheilwng o wlad Gristionogol; a phan ganfu y Brenin James fod teimlad y wlad yn myned yn groes i hynny, penderfynodd y cawsai amheuwyr y Drindod o hynny allan drengu mewn carcharau, fel y caffai yr yspryd erlidgar ei ffordd, ond heb gyffroi digllonrwydd y wlad a chydymdeimlad y werin.

Rhoddwyd amryw o ddynion i farwolaeth trwy eu carcharu a'u newynu, yn unol a'r bwriad hwn; a gellid enwi rhai Undodwyr a garcharwyd am eu golygiadau; ond canfyddir yspryd yr oes yn fwy eglur efallai oddiwrth y ffaith ganlynol. Yn mis Mai, 1648, ffurfiwyd *Act of Parliament*, yn yr hon y gosodwyd allan y buasai i'r sawl a wadasant fod y Tad yn Dduw, fod y Mab yn Dduw, a'r Yspryd Glân yn Dduw, gael dioddef y gosp o farwolaeth; ac yr oedd yr un gosp am wadu fod Crist yn ogyfuwch a'r Tad. Fel y canfyddir nad wyf yn camadrodd, rhoddaf eiriau y gyfraith ei hun:—

"And be it enacted, that all such persons as should maintain and publish that the Father is not God, that the Son is not God, or that the Holy Ghost is not God, or that they three are not one eternal God; or that Christ is not equal with the Father, should be adjudged guilty of felony; and in case the party upon his trial should not abjure his said error and defence and maintenance of the same, *he should suffer the pains of death*, as in case of felony, without benefit of clergy."

Parhaodd yr un yspryd yn senedd Lloegr yn ystod y can mlynedd canlynol; ac yr oedd yr un teimlad ym mhlith eglwyswyr yr Ymneilldwyr. Pan ddaeth William y Trydydd i orsedd Lloegr, yn 1688, dygodd gydag ef yr yspryd rhyddfrydig a ffynnai yn Holland; a noddodd yr Ymneilldwyr yn erbyn yr esgobion, trwy roddi iddynt yr *Act of Toleration*; ond cauwyd Undodwyr allan o nawdd y ddeddf honno; a chyfyngwyd ei breintiau i'r rhai a gredent yn "Y Trindod Sanctaidd."

Dan yr amgylchiadau hyn, ac wedi y flwyddyn 1660, cymmerodd Milton at y gorchwyl o gyfansoddi tri o weithiau pwysig, sef, Coll Gwynfa, Geiriadur Lladin, a Chorph o Ddifinyddiaeth; a chwblhaodd hwynt oll. Arweiniodd yr olaf ef i ystyried gweithiau awduron gwahanol a gwrthwynebol. Gwelodd fod y rhai a elwid yn hereticiaid yn esponio yr ysgrythyrau yn fynych gyda mwy o degwch ac eglurdeb na'r esponwyr uniongred; a'r canlyniad fu iddo fabwysiadu golygiadau hollol groes i'r rhai a ddaliai gynt, a'r cyfryw ag y buasai ei fywyd mewn perygl, pe cyhoeddasai hwynt yn ei wlad ei hun. Rhoddodd y traethawd i gyfaill o'r enw Daniel Skinner, i fyned ag ef i Holland i'w gyhoeddi yno, fel y gwnaeth Sir Isaac Newton a'i draethawd ef ar y ddau lygriad yn y Testament Newydd; galwodd Skinner gyda llyfrwerthwr yno o'r enw Daniel Elzevir, a gofynodd iddo argraphu a chyhoeddi y traethawd; ond wrth ddarllen y llyfr barnai Elzevir fod ynddo lawer o bethau a fuasai yn well eu gadael yng nghudd, am hynny gwrthodod ei argraphu. Cymmerodd hyn le yn y flwyddyn 1676, ddwy flynydd wedi marwolaeth Milton; ac aeth Skinner a'r ysgrifau ymaith. Bu'r traethawd ar goll wedi hynny am ganrif a hanner, ac ni wyddid beth a ddaeth o honno; ond yn niwedd 1823, cafwyd yr ysgrif ym mhlith papyrau y llywodraeth yn Llundain. Yr oedd yn y iaith Ladin; a gorchymynodd y brenin i Dr. Sumner, yn awr Esgob Winchester, ei gyfieithu a'i gyhoeddi. Y traethawd hwn yw yr awdurdod goreu ynghylch daliadau Milton; a rhoddir amlygiad o hono yn ein rhifyn nesaf.

(I'w barhau.)

DARGANFYDDIAD O HEN LAW-YSGRIF FIBLAIDD, YN YR AIPHT.

Mae "trysorau yr Aipht," lawer o honynt, ar ol bod am oesoedd maith yn guddiedig, bellach yn cael eu dwyn i'r goleu, er eglurhau hanesiaeth gwareiddiad boreuol ein byd, cadarnhau prif ffeithiau yr hanesion Hebreig, a chyfoethogi llenyddiaeth Gristnogol. Heblaw yr arysgrifion a geir yn gerfiedig ar greigydd, mewn hen demlau a beddrodau brenhinol, ac ar gofadeiliau eraill—pa rai ydynt yn dyfod bob blwyddyn yn fwy a mwy darllenadwy—fe gyfarfyddir yn awr ac yn y man â hen law-ysgrifau gwerthfawr mewn crefydd-dai ag ydynt etto yn aros mewn lleoedd unig yn y wlad hon. Pob parch i Lepsius, Tischendorf, Cureton, a'u noddwyr a'u cyd-lafurwyr, am eu gwaith da; a phob llwydd i'w hymchwiliadau!

Dywed *Le Lien*, cyhoeddiad rhagorol o eiddo'r Protestaniaid yn Ffrainc, fod cyffro a chryn ddisgwyliad, ar y pryd hwn ymhlith duwinyddion Germani, oherwydd darganfyddiad hynod a wnaed gan y Proffessor Tischendorf, yr hwn sydd yn bur adnabyddus i ddysgedigion trwy ei weithiau beirniadol ar y Testament Newydd, a'r hwn a wnaeth yn ddiweddar ymdaith er gwneud ymchwiliad ynghylch hynafiaethau yn y dwyrain, ar draul llywodraethau Saxoni a Rwssia. Nid yw yr hyn a ddarganfyddwyd ganddo ddim llai na hen law-ysgrif o'r Bibl, a chwaer hynaf i law-ysgrif enwog y Vatican, yr hon a gafwyd, mewn cadwraeth dda i'w ryfeddu, mewn mynachdy yn yr Aipht. Braidd y gallai M. Tischendorf gredu fod yr hyn ddarfu ddarganfod y peth ydoedd mewn gwirionedd, a phenderfynodd i beidio dywedyd gair am dani hyd nes iddo gael boddlonrwydd ei bod yn cynnwys yr holl nodau a gydnabyddir gan rai hyddysg mewn hen ysgrifau fel yn penderfynu oedran hen law-ysgrif. Ond yn awr nid oes hwyach yr un amheuaeth: mae y memrwn, lluniau y llythyrenau, yr attal-nodiad, y blaen-lythyrenau, yr arysgrifeniadau, a'r ol-ysgrifeniadau, yr inc, &c., oll yn profi fod genym yn awr law-ysgrif Alexandraidd, o'r bedwaredd ganrif, o amser Cystenyn Fawr ac Eusebius o Cesarea, yn cynnwys y cyfan o'r Testament Newydd, ac a fydd o hyn allan y blaenaf a'r mwyaf urddasol o'r tystion dros dext y Testament Newydd.

Darfu M. Tischendorf hysbysu y darganfyddiad i weinidog Brenin Saxoni, mewn llythyr dyddiedig Cairo, y 15fed o Fawrth, yr hwn a adgyhoeddwyd yn y *Leipsig Gazette* ar y 16eg o Ebrill.

Hyd yn hyn ystyrid mai ysgrif y Vatican oedd yn cynnwys y copi henaf o lyfrau'r Testament Newydd. Yr oedd bodoliaeth yr ysgrif hono yn wybyddus oddiar yr 16eg ganrif. Wedi cael ei chadw trwy eiddigedd Pabaidd am hir amser yn guddiedig oddiwrth y cyhoedd, dygwyd hi i Paris dan Napoleon I., lle y cafodd ei chwilio gyda chryn frys gan y duwinydd Hug, ac yna dychwelwyd hi i'w lle blaenorol ar adferiad y Bourbons i Ffrainc. Yr ydoedd wedi cyrhaeddydd cymaint o hynodrwydd fel nad oedd yn ddichonadwy bellach i'w chadw yn gudd hollol oddiwrth chwilgarwch y cyhoedd. Pa fodd bynag nid oedd yr awdurdod Pabaidd yn caniatau yr un ymchwiliad oddieithr ar y fath delerau ag a wnelai hyny braidd yn amhosibl. Mae hanesion beirniadaeth fiblaidd yn llawn o alarnadau beirniaid annedwydd, y rhai a ewyllysient yn ofer gael copïo yn llawn yr hen law-ysgrif werthfawr hon. Yn 1828 darfu Llywodraeth Rhufain addaw rhoddi argraffiad o honi, a phenodwyd y dysgedig Cardinal Mai i ddwyn y cyhoeddiad allan. Aeth-

pwyd ymlaen â'r gwaith, modd bynag, gyda chymaint o arafwch, fel nad ymddangosodd yr argraffiad disgwyliedig hyd y flwyddyn ddiweddaf; pedair mlynedd wedi marw'r Cardinal, a 30 mlynedd wedi rhoddiad yr addewid: ac yr oedd yn cynnwys cymaint o wallau ac amherffeithderau, fel ag i leihau ei werth yn ddirfawr.

Oddiwrth fynegiadau M. Tischendorf dysgwn fod y law-ysgrif sydd newydd ei darganfod yn cynnwys tri chant a chwe tudalen a deugain o femrwn o faintioli mawr. Buasai yn ofynol, eb efe, gael croen cyfan o'r *gazelle* er gweud dwy o'r tudalenau hyn. Rhennir yr ysgrifeniad, ar bob tudalen, yn bedair colofn. Y mae ar y cyfan mewn cyflwr o gadwraeth dda. Barna y Proffessor fod rhai manau o honi wedi cael eu hail-gyffwrdd, ar ryw gyfnod diweddarach, fel mae'n arfer gydag hen law-ysgrifau. Oddiwrth y profion mewnol y mae yn ei ystyried yn sicr, fod y law-ysgrif yn amseru er y bedwaredd ganrif; ac y mae y rhai ydynt yn adnabyddus â gweithiau y beirniad dysgedig, yn gwybod y gellir rhoddi pob ymddiried yn ei haeriadau. Y mae y *codex* yma, ynte, yn gyd-amserol â llaw-ysgrif y Vatican, ac â'r llaw-ysgrif o'r Hen Destament sydd yn Leipsig, y ddau enghraifft henaf o gopïau o'r Ysgrythyrau Sanctaidd ag sy'n bodoli yn Ewrop. Y llaw-ysgrifau henaf o'r Testament Newydd, nesaf at un Rhufain, ydynt llaw-ysgrif y *British Museum*, yr hon sydd yn amseru er canol y bumfed ganrif, a llaw-ysgrif Ephrem yn llyfrgell Ymherodrol Paris, yr hon sydd o'r un oedran. Y rhai henaf ar ol y rhai hyn ydynt o'r chweched ganrif.

Ond y peth a rydd i'r law-ysgrif sydd newydd ei darganfod wir uwchafiaeth ydyw, ei bod yn cynnwys *y cyfan* o'r Testament Newydd. Nid yw yr un yn Paris yn cynnwys ond darnau o'r Ysgrythyr Lân. Nid yw llawysgrif Llundain yn gyflawn. Y mae yr Efengyl gyntaf yn mron oll, a'r ail Epistol at y Corinthiaid yn mron oll, yn eisieu. Y mae llaw-ysgrif y Vatican wedi colli y Datguddiad, pedwar o Epistolau Paul, a'r drydedd ran o'r Epistol at yr Hebreaid. Mae y codex yma, i'r gwrthwyneb, yr hon a gynnwys lawer o lyfrau canonaidd ac apocryphaidd yr Hen Destament (y Prophwydi yn mron oll, y Salmau, Llyfr Sirach, Doethineb, &c.,) *yn cynnwys holl lyfrau y Testament Newydd*, yr hyn a'i gwna o werth amhrisiadwy. Ac heblaw hyn, y mae yn cynnwys, wedi ei uno â'r Dadguddiad, yr Epistol a briodolir i Barnabas, ysgrifeniad pwysig o tua diwedd y ganrif gyntaf neu ddechreu yr ail; ac hefyd, y rhan flaenaf o Fugail Hermas, a wnaed yn yr haner blaenaf o'r ail ganrif. A hyn a gadarnha'r gred ag oedd darllen hanes y canon eisioes wedi ein dwyn i'w mabwysiadu; sef bod Epistol Barnabas a Bugail Hermas, yn yr hen oesoedd Cristnogol, yn cael eu hystyried yn rhan o'r Ysgrythyrau Sanctaidd.

Diwedda'r beirniad clodfawr ei lythyr gyda'r geiriau hyn:—"Bu bodolaeth llaw-ysgrif y Vatican yn wybyddus am dri chan mlynedd cyn y daeth pwyd i'r penderfyniad i gydsynio â'r dymuniad cyffredinol am ei chyhoeddiad. Yn lle tair canrif, gobeithiaf y bydd tair blynedd yn ddigonol i'm galluogi i gyfoethogi llenyddiaeth Cristnogol âg un o'i hargofion gwerthfawrocaf."

Nis gellir canfod gwirionedd trwy fwg ymadroddion digllon.—BARROW.

Nid oes un dyn erioed wedi cael gwir brofiad o wynfyd, heb wybod rhywbeth yn gyntaf beth yw adfyd.

YR IUDDEWON.

Yn y flwyddyn 1806 rhoddodd Napoleon orchymyn i Sanhedrim fawr yr Iuddewon i ymgynnull yn Paris, prifddinas Ffrainc; ac wedi iddynt ymgasglu ynghyd rhoddwyd ger eu bron ddeuddeg o ofyniadau, y rhai, ynghyd a'u hattebion hwythau, oedd fel y canlyn :—

1. A ydyw amlwreigiaeth yn cael ei ganiatau ymhlith yr Iuddewon ?

Y mae amlwreigiaeth yn cael ei wahardd yn ol gorchymyn Cymmanfa (*synod*) Worms, yn y flwyddyn 1030.

2. A ydyw gosod ymaith wraig (*divorce*) yn cael ei gydnabod gan y gyfraith Iuddewig ?

Ydyw, y mae yn cael ei ganiatau; ond yn y pwnc hwn y mae yr Iuddewon yn cydnabod awdurdod cyfraith y wlad y byddont yn byw ynddi.

3. A eill Iuddewon ymuno mewn priodns â Christionogion ?

Nid yw y cyfryw briodasau yn cael eu gwahardd; er hynny mae anhawsder yn cyfodi oddiar y gwahanol ffurfiau priodas.

4. A gyfrifir pobl Ffrainc gan yr Iuddewon fel estroniaid, neu ynte fel brodyr ?

Y mae Iuddewon Ffrainc yn cydnabod yn yr ystyr helaethaf pobl Ffrainc fel eu brodyr.

5. Ymha berthynas, yn ol y gyfraith Iuddewig, y safai yr Iuddewon tuag at y gyfraith Iuddewig ?

Y mae perthynas Iuddew i Ffrancwr yr un peth ag ydyw Iuddew i Iudd. ew. Yr unig wahaniaeth, yn eu crefydd y mae.

6. A ydyw Iuddewon a anwyd yn Ffrainc yn ei hystyried hi yn wlad eu genedigaeth ? A ydynt hwy yn rhwym i ufuddhau i gyfreithiau ac arferion y wlad ?

Darfu i'r Iuddewon gydnabod Ffraine fel eu gwlad pan oedd yn eu gorthrymu—pa faint mwy y rhaid eu bod pan yn cael caniatad i gyfranogi o freintiau gwladol ?

7. Pwy sydd yn ethol Rabbiniaid ?

Nid yw etholiad Rabbiniaid bob amser yr un fath: mae yn gyffredin yn gorphwys gyda phennau teuluoedd.

8. Pa beth ydyw awdurdod gyfreithiol y Rabbiniaid ?

Nid oes gan y Rabbiniaid un awdurdod farnol; y Sanhedrim yw yr unig lys cyfreithiol. Mae Iuddewon Ffrainc a'r Eidal yn ddarostyngedig i gyfreithiau y wlad, a phob awdurdod y gallasent yn flaenorol ei meddiannu wedi ei ddiddymmu.

9. Pa un ai ar gyfraith ai ar arferiad y mae awdurdod y Rabbiniaid yn sylfaenedig ?

Mae etholiad ac awdurdod y Rabbiniaid yn gorphwys yn hollol ar arferiad.

10. A oes rhyw fath o fasnach yr hon ni chaniateir i'r Iuddewon ei chymmeryd mewn llaw ?

Mae pob galwedigaeth (*business*) yn cael ei chaniatau i'r Iuddewon.

11. A ydyw usuriaeth i'w brodyr yn cael ei wahardd gan y gyfraith ?

12. A ganiateir neu ynte a waherddir i arfer usuriaeth at ddieithriaid ?

Mewn attebiad i'r 11eg a'r 12fed gofyniad, sylwn fod cyfraith Moses yn gwahardd llog anghyfreithlon; ond deddf oedd hon i bobl amaethyddol. Mae y Talmud yu caniatau i lôg gael ei gymmeryd oddiwrth frodyr a dieithriaid; y mae yn gwahardd usuriaeth.

Coleg Caerfyrddin. W. D.

CYMDEITHAS UNDODAIDD BRYDEINIG A THRAMOR.

(*British and Foreign Unitarian Association.*)

Cynnaliwyd Cyfarfod Blynyddol y Gymdeithas uchod ar y 15fed o Fehefin, yn yr Eglwys Undodaidd, Hackney, Llundain. Heblaw gweinidogion a noddwyr y Gymdeithas yn Llundain a phrif drefydd y taleithiau, yr oedd nifer mawr wedi dyfod ynghyd o bob parth o'r wlad. Pregethodd y Parch. T. Hincks, o Leeds, oddiwrth 2 Cor. iv. 4.

Cyfeiriai yr adroddiad (*Report*) at y gennadaeth a gymerodd y diweddar Barch. Ed. Tagart arno, yn unol â phenderfyniad y *Committee*, tua diwedd yr haf diweddaf, i ymweled ag Eglwysi Transylvania, gyda'r golwg, trwy gydymdeithas bersonol â gweinidogion ac athrawon eu colegau, i gryfhau y teimladau o barch a chydymdeimlad ag oeddent wedi cyfodi rhwng Undodiaid y ddwy wlad. Gwnaethpwyd cydnabyddiaeth o barch dyledus i garacter Mr. T. a'i ymdrechiadau selog a defnyddiol. Yr oedd y *Committee* newydd dderbyn cydnabyddiaeth swyddol oddiwrth y Consistory, o'u bod wedi derbyn y £1230 a ddanfonasid drosodd o Loegr, er cynhorthwyo a diogelu ysgolion a cholegau Transylvania. Bu Mr. Tagart farw ar y ffordd wrth ddychwelyd adref, wedi ei daro yn glaf mewn twymyn yn Brussels, ac mor sydyn fel na chafodd gyfle i roddi ond ychydig hanes o helynt ei genadwri. Dan yr amgylchiad derbyniwyd cynnyg oddiwrth y Parch. S. A. Steinthal iddo ef fyned i ymweled â Thransylvania er cyflawni y diffyg a ddigwyddasai trwy farwolaeth Mr. Tagart. Yr oedd Mr. Steinthal newydd ddychwelyd erbyn y cyfarfod. Rhoddwn ei adroddiad o helynt ei genadwri ynghyd ag ychydig o hanes Undodiaid Transylvania mewn rhan arall o'r rhifyn hwn os bydd lle, neu ynte yn ein rhifyn nesaf. Yr oedd yn y cyfarfod ddau fonheddig o Transylvania, M. Joseph Ferentz a M. Aaron Burzogany, pa rai ydynt athrawon etholedig i'r Colegau yn Transylvania, ac i'r dyben hyny wedi bod yn perffeithio eu dysg yn Germany.

Peth arall ag a'n tarawodd yn yr Adroddiad, fel yn gymmwys i'w osod ger bron darllenwyr yr *Ymofynydd* ydoedd, ddarfod i'r *Committee* ddwyn ger bron y cyfarfod *y Gyfrol gyntaf* (yn Saesneg) *o Gyfieithiad diwygiedig o Ysgrythyrau yr Hen Destament*, seiliedig ar gyfieithiad blaenorol o lyfrau hanesiol cynnaraf y Bibl, gan y Parch. C. Wellbeloved, diwygiedig trwy gynhorthwy y Parch. John Kenrick. Cyflawnir y rhan sydd yn ol o'r gwaith gan y Parchn. G. V. Smith a J. Scott Porter, oddieithr y Salmau, Job, y Diarhebion, y Pregethwr, Caniadau Solomon a'r Prophwydi lleiaf, pa rai a gyhoeddir o ddiwygiad a baratoisid gan Mr. Wellbeloved cyn ei farw.

Gwnaethpwyd rhai cyfnewidiadau ar reolau y gymdeithas, gyda golwg i'w gwneuthur yn fwy cenhedlaethol, trwy agosach gyssylltiad â'r taleithiau, a chyda'r golwg hefyd i gryfhau'r undeb a chydymdeimlad rhwng Undodiaid Prydain Fawr, a Ffrainc a Germany a Switzerland, Hungary, America, ac Awstralia. Ac i'r dyben hyn, deallwn, appwyntir gohebwyr cartrefol a thramor, at ba rai yr edrychir am gael hysbysrwydd a chyngor ynghylch matterion a berthynant yn neillduol i'w gwahanol ardaloedd.

Rhoddir i'r aelodau adroddiad cyflawn o weithrediadau y Gymdeithas yn ei hamrywiol ddosparthiadau gartref, ac mewn gwledydd tramor.

Y Parch. John Kenrick ar y "Cyfieithiad diwygiedig o'r Ysgrythyrau."

Yn y cyfarfod cymdeithasol a gynnaliwyd ar ol cwrdd y boreu, yn Hackney, dan lywyddiad Alderman Lawrence, areithiwyd yn dda neillduol ar sefyllfa a gobeithion yr Eglwys Undodaidd, gan amryw weinidogion ac eraill o Lundain ac o'r taleithiau ac o wledydd tramor. Yr oedd areithiau y ddau weinidog o Hungary yn ddyddorol a tharawiadol dros ben. Ond ni chaniateir lle i ni osod ond rhai pigion ger bron ein darllenwyr. Testun araeth Mr. Kenrick ydoedd, "Bydded i'r Eglwys Undodaidd barhau i fod y penaf, fel y mae wedi bod y blaenaf, yn y gwaith o ddwyn ymlaen gyfieithiad diwyll o'r Ysgrythyr Lân." Sylwai fod y testun a roddid iddo yn ddiau wedi ymgynnyg oddiwrth yr amgylchiad gobeithiol fod y Gymdeithas Undodaidd, ar y dydd hwnw, wedi cyflwyno iddynt y gyfrol gyntaf o'r cyfryw gyfieithiad diwygiedig o'r Hen Destament; ac fod y peth tra dymunol hwn wedi bod mewn golwg gan reolwyr y Gymdeithas am hir amser, a bod Mr. Wellbeloved ac eraill wedi bod yn ddiwyd a llafurus gyda'r gwaith. Gyda golwg ar y dymuniad ar fod i'r Gymdeithas ddwyn allan gyfieithiad *didwyll*, dywedodd Mr. K. ei bod yn llawen ganddo allu tystio, ar ran y rhai a ddygent mawr serch dros y gwaith a'r rhai a lafurient ynddo, deimlad o gydnabyddiaeth barchus am yr amhleidgarwch a'r haelfrydedd a ddangoswyd tuag at y cyfieithwyr gan y *Committee*. Na chynnygiwyd gosod un lyfethyr sectyddol pa bynag ar feddyliau y cyfieithwyr, eithr rhoddi pob rhwyddineb ac annogaeth iddynt chwilio a barnu yn rhydd ac yn ddiduedd, er dwyn allan gyfieithiad didwyll, ac mor gywir ag y medrent.

"Galwaf sylw neillduol," ebai Mr. K., "at yr amgylchiad hyn, o achos i mi weled fod un, yn ddiweddar, a hwnw o radd uchel ac awdurdod mawr, debygwn, oddiwrth ei sefyllfa, yn haeru fod yr Undodiaid yn gwneuthur Bibl iddynt eu hunain. Ac yr wy'n meddwl nad ydyw yn anhebygol, pan y deuir i wybod fod yr Undodiaid yn cyhoeddi cyfieithiad diwygiedig o'r Hen Destament, y byddir i ddywedyd eu bod wrth *eu hen waith*; eu bod yn awr yn gwneuthur Hen Destament, fel y gwnaethant o'r blaen Destament Newydd, er gwasanaethu eu hamcanion eu hunain. Nis gallaf ddychymygu cyhuddiad mwy prysur, pe gellid ond ei brofi. Byddai yn dda i'r rhai a ddygant y fath gyhuddiadau ddwys ystyried y dichon iddynt wrthlamu ar benau'r cyhuddwyr, a chyda llymder cyfattebol i bwysigrwydd y camgyhuddiad. Fod dynion wedi trin gair Duw yn dwyllodrus er mwyn cynnal tyb, nid wyf yn gwadu; ond ai Undodiaid oedd y rhai a gymerasant y fath ryddid â'r Ysgrythyr? Yr oedd dyn, ryw amser neu gilydd, wedi cael, yn anerchiad yr Apostol Paul i Henuriaid yn Miletus, annogiad iddynt borthi Eglwys yr Arglwydd, yr hon a bwrcasodd â'i waed. Nid oedd yn meddwl fod hyny yn ddigon uniawngred; cyfnewidiodd air, ac a'i gwnaeth yn Eglwys Dduw yr hon a bwrcasodd â'i waed. Nid Undodwr ydoedd efe, tybiaf. Yr oedd un arall yr hwn a gafodd, yn un o Epistolau St. Paul, y dadganiad fod "Yr yr hwn a ymddangosodd yn y cnawd wedi ei ogoneddu," ac felly yn y blaen. Nid ymddangosai yn ddigon uniawngred iddo ef; ac felly, trwy dynu ei ysgrifell, a gwneud llinell trwy un llythyren, ac un uwchben un arall, mae yn cyfnewid hyn i, *Duw* a ymddangosodd yn y cnawd. Ai Undodwr oedd efe? Nage, dybiwn i. Ac yna yr oedd y twyllwr mwyaf oll o honynt, yr hwn a ddygodd i mewn yn lledradaidd, i Epistol cyntaf Ioan, y testun hynod, "Y mae tri yn tystiolaethu yn y nef, y Tad, y Gair a'r Ysbryd Glan, a'r tri hyn

un ydynt." Ai Undodwr oedd ef? Tybiaf nade. Onid ydwyf ynte yn rhoddi rhybudd digonol, pan y dywedaf wrth y rhai a ddygant y fath gyhuddiadau yn erbyn Undodiaid, ar iddynt edrych yn ofalus atti, na fyddont hwy eu hunain i gael dioddef oddiwrth ddadlamiad y cyhuddiad.

"Yr wyf yn gobeithio nas cyfrifir i'r rhai a gymerasant ran yn y gwaith hwn, eu bod wedi ymwthio ymlaen yn ddiraid, ac i rwystro i'r peth gael ei gymeryd mewn llaw trwy awdurdod, ac o ganlyniad i gael helaethach derbyniad, a mwy o effaith nag a gawsai heb hyny. Credaf nad oes ar y fynud hon y dichonolrwydd lleiaf y bydd i'r fath gyfleithiad diwygiedig gael ei gymeryd mewn llaw trwy awdurdod y llywodraeth. A phe buasai hyny, yr wyf yn gwbl o'r farn y buasai etto yn angenrheidiol i'r Undodiaid, mewn amddiffyniad o'u ffydd, i ddwyn allan eu cyfleithiad o'r Ysgrythyrau; oblegyd pe byddai y lled-dybiaeth lleiaf, yn meddyliau y rhai a gymerant arnynt yr enw o gyhoedd crefyddol (*religious public*) yn Lloegr, fod y tri thext a nodais i gael eu newid neu eu gadael allan o unrhyw gyfleithiad awdurdodedig, byddai gwaedd o un pen o'r deyrnas i'r llall yn erbyn cymeryd unrhyw ddiwygiad o'r fath mewn llaw. Ac nid wyf yn credu y bodola un corff o ddynion, mewn cyssylltiad â'r Eglwys neu ag un enwad uniongred, neu pa fath bynag fyddo eu hargyhoeddiadau ar y pwnc, a feiddient ddwyn allan gyfleithiad a wnelai gyfiawnder, yn mhob ystyr, â'r ysgrythyrau gwreiddiol. Am hyny yr wyf yn meddwl fod yn gwbl ddiraid i gyfrif i'r Undodiaid mwy o barodrwydd nag oedd ddyladwy, wrth ddwyn yn y blaen y gwaith hwn; ac yr wyf yn credu yr â y ganrif hon drosodd cyn y ceir cyfleithiad diwygiedig trwy awdurdod gwladol. Gadawer i mi wneuthur un sylw yn mhellach. Amlygir teimlad o bob tu ac yn barhaus o ddiffyg rhywbeth er chwanegu bywyd a theimlad crefyddol yn ein henwad. Feallai fy mod yn camsynied, ond nis gallaf lai na meddwl fod y diffyg, i raddau mawr, wedi cyfodi oddiar esgeuluso gwneuthur astudiaeth o'r ysgrythyrau yn rhan o addysgiaeth yr ieuainc. Yr wyf yn credu nad yw astudiaeth ysgrythyrol yn dal yr un lle yn addysgiaeth y dyddiau hyn, ac mewn addysgiaeth teuluaidd, ag yr oedd yn gael gyda'n tadau; ac mai un achos mawr o wanychiad ysbryd crefydd yn ein plith oedd esgeuluso yr ysgrythyrau sanctaidd. Dichon y gellir cyfrif am hyn. Rhaid i mi addef eu bod, yn eu ffurf gyffredin, yn cael eu cynnyg i ni mewn ffordd gryn wrthwynebus. Gan lawer, o bosibl, nid adwaenir hwynt ond yn nhameidiau sychion rhyw wers Fiblaidd, o'r hon yr oedd y cwbl o flas gair y bywyd wedi ymadael. A dyna'r dull hefyd yr ymgynnyga y Bibl i ni yn yr argraffiadau cyffredin. A gafodd hanes erioed ei dorri i fynu a'i ddarnio fel mae'r Bibl wedi gael trwy ei ranniad i adnodau? A gafodd un llyfr o brydyddiaeth ond y Bibl erioed ei argraffu fel pe buasai yn rhyddiaith? Mae'n wir nad yw ysgrythyrau yr Hen Gyfammod, rhan o ba rai a gyflwynir i chwi yn awr gan y Gymdeithas, ddim i ni Gristnogion o'r un pwysigrwydd ag yw ysgrythyrau y Cyfammod Newydd. Ond pan gofiwyf fod yr Apostol Paul yn galw ysgrythyrau yr Hen Gyfammod yn "oraclau Duw", ac eu bod wedi meithrin teimladau crefyddol efangylwyr ac apostolion, ïe, ac yr wyf yn llefaru gyda pharch, meithrin caracter crefyddol yr Iachawdwr ei hun, nis gallaf lai na meddwl ein bod wedi ymddwyn yn annoeth i esgeuluso yr Hen Destament gymaint. Ac yr wyf yn sicr, os bydd y ffaith o'i ymddangosiad mewn ffurf mwy darllenadwy a chywir, i adfywio, i ryw radd, yr astudiaeth o hono gyda'r genhedlaeth sydd yn cyfodi, bydd y rhai oedd a wnelent âg ef i gael, yn yr amgylchiad hwnw, eu hamcan a'u gwobr pennaf."—*Inquirer*.

MARWNAD I'R DIWEDDAR EVAN DAVIES, YSW., MEDDYG, DINAS, MORGANWG.

"Hydref y 22ain, 1850, yn 49 oed, bu farw E. Davies, Ysw., meddyg, Dinas, yn Morganwg—dyn synwyrol, caruaidd, pwyllog; cyfaill serchog, a meddyg deallgar a medrus; a thra pharod i gydymdeimlo a'r cleifion; yn anghyffredin iawn y gwelid ei fath. Oddieithr yr amser y bu yn Llundain yn myfyrio tuag at ei alwedigaeth, treuliodd ei fywyd oll yn ngwlad ei deidau. Cymaint oedd ei ofal, fel meddyg, dros hir flynyddau, yn ngwaith y Dinas a'r cylchoedd, fel nad aethai braidd oll allan o'r gymydogaeth, lle y mae llaweroedd etto yn teimlo ac yn siarad yn barchus am dano, ac yn alarus o herwydd ei golli. Nid yw ond cyfiawn i ddywedyd am y cyfaill ymadawedig, ei fod yn cael ei barchu fwyaf gan y sawl a'i hadwaenent ef oreu. Yn meddu ar feddwl treiddgar a gwybodaeth helaeth, ac yn hynod foneddigaidd mewn tymher ac ymarweddiad—pell iawn oedd efe o ymhoffi yn nghyfeillach crachfonheddigion, nac mewn unrhyw fympwy na rhodres. Ond dynion pwyllog ac ymofyngar, yn enwedig dynion ieuainge ymofyngar ac awyddus am wybodaeth, a welid yn cyrchu yn aml i "dŷ'r Doctor," lle y derbynid hwy yn roesawus. Yn nesaf at gyflawni dyledswyddau ei alwedigaeth, yr oedd yn hoff waith ganddo i ymddiddan a ddadleu ar bynciau crefyddol ac athronyddol. Yr oedd Mr. D. yn cofleidio Cristionogrwydd oddiar ymchwiliad i'w phrofion ac argyhoeddiad o'i gwirionedd, ac yr oedd yn Undodwr zelog. Ond byddai crefyddwyr a gweinidogion o wahanol enwadau yn cyrchu atto yn fynych ac yn hoffi ei gyfeillach.

Er ei fod ef yn darllen llawer ac yn fanwl ar awduron Seisnig, nid ysgrifenodd ddim i'r cyhoedd ond yn Gymraeg. Yn 1827, cyhoeddodd "Y Meddyg Teuluaidd" (*The Family Physician*), yr hwn sydd i fesur yn eithriad, gan ei fod wedi ei argraffu mewn dwy golofn, Cymraeg a Saesonaeg, y naill gyferbyn a'r llall. Ni pharhawyd y cyhoeddiad yn mhellach na'r trydydd rhifyn. Bu Mr. D. am flynyddau yn ohebydd cyson i "Seren Gomer," a thros ryw amser mewn ddadl gyfeillgar â'i gymydog, y diweddar Mr. Edwards, o'r Dinas, ar bynciau perthynol i angenrheidrwydd, &c. Yn 1846 cyhoeddodd "Rhifedi ac Undod Duw, Nodiadau ar Ddarluniadau ac Eglurhadau y Parch. J. Jones, Rhydybont, ar Athrawiaeth y Drindod." Gwedi hyn ymddangosodd rhai llythyrau rhyngddo a Mr. ar y pwnc, yn 'Y Golygydd.'"—*Allan o Ymofynydd Rhagfyr*, 1850, *tudal.* 285.

Mae galar yn ffynu ar lenydd y Rhondda,
Per seiniau llawenydd giliasant odd'yma;
Arluniwyd dwfn wae ar wynebau'r preswylwyr,
Mae'n syn y gwŷr ieuainge, a thrist yr henafgwyr;
Ymguriant yn arw, sobreiddiwyd y werin,
Ni chydorfoleddant am hafwisg Mehefin;
Datganed awenydd pa beth yw'r amgylchiad,
Osodai'r lon ardal dan gwmwl galarnad.

Ar lechwedd y fron, wele anedd lwyd unig,
Oedd gynt yn artrefle boneddwr parchedig;
Penigamp lawfeddyg i wella clefydau,
A phwyllog gydymaith i loewi meddyliau;
Byth mwy dan ei chronglwyd ni bydd yn llettya,
Graiandir y fynwent sydd iddo'n orphwysfa;
Mae gofid a hiraeth, ei fod yno'n aros,
Ar bawb a'i hadnabu yn mhell ac yn agos.

Meithriniodd heb fantais cyfryngau dysgeidiaeth.
Mewn ardal bellenig o gelloedd gwybodaeth,
Ni fuont yn ddigon effeithiol o rwystrau,
I luddias dadblygiad ei gryfion gyneddfau;
O'r creigiau agenawg a'r certbion glogwyni,
Myg ddullwedd a chynyrch y llenyrch a'r llwyni,
Gwnaeth ysgol, hon ddringodd, ac yfodd yn helaeth,
A thra diarbedol o ffrydiau gwybodaeth.

Bydd melus adgofio gan hoffwyr llythrenau,
Eu hymgyrch i'w anedd ar hwyrol wibdeithiau;
Y parchus dderbyniad, a'r groesaw calonog
A gawsant ar unwaith, 'nol croesi ei riniog;
A'i fwynaidd gyfeillach i ymdrin a phethau
A dynent ddirgelion i lewyrch a golau;
Ar doriad i fynu efelly'r gyfeillach,
Ai pawb i'w cartrefle yn well ac yn gallach.

Mae gleiniau doethineb yn mhell wasgaredig,
Dros feithder dyryswch anialwch anelwig;
Gwirionedd mewn dyfnion bydewau sy'n trigo,
A phwyll a dyfalwch rhaid edrych am dano;
Yr un a'n tywysai dros lyfnion deg lwybrau,
I'r manau dymunol lle ceir y trysorau;
P'am dygaist oddiarnom yn nghanol ei ddyddiau,
Archollaist ni'n chwerw, wrdd-deyrn dychryniadau?

Chwi ddiwyd lafurwyr yn nglowaith y Dinas,
Collasoch eich diddig lawfeddyg cyfaddas;
Hawdd genych fydd cofio adwythig ddamweiniau,
Aelodau sigedig ac erchyll losgiadau;
'Rhwn ddeuai i weini cynorthwy mor fedrus,
Ar bob gwys a galwad yn llwyr ddiesgeulus,
O'ch, Dinas a fwriwyd, wr daionus cyfarwydd,
Yrwan ys tiria mewn dinas distawrwydd.

Doed sawl fu'n dihoeni ar wâl cystuddiedig,
Adferwyd eu nerth gan ei driniaeth ddeheuig;
A'r rheini symbylodd ei nawdd a'i anogaeth,
Yn more'u bywydau i geisio gwybodaeth;
A'r llu ga'dd amlygiad o rediad cariadus,
Ei deimlad at ddyn, a'i hael dymer ddaionus;
Bob un allo 'mysgwyd yn fintai 'wyllysgar,
I hulio'i oer wely â rhyw arwydd o alar.

I'w ddawn a'i fedrusrwydd a'i ddysglaer athrylith,
Tra dynion bydd cydsain arwyrain diragrith;
Ond haelder ei fryd a thynerwch ei galon,
A gant yn ddiymwad gan gariad y goron;
Dihangodd i'r wlad y gwna Hollalluogrwydd
Wobrwyo uniondeb a gwir ddiniweidrwydd;
Ac yno blagura teg ffrwythau'i ragorion,
Ar fryniau Caersalem dros byth yn wyrddleision.

ALAN GLAN ELAI,

Sef, Mr. Evan Llewelyn, gynt o'r Maerdy, Ystrad-dyfodwg.

NODAU'R GWIRIONEDD A GWIR GREFYDD.

RHIF I.

Hyderaf nas gwelir yn anghymmwys neu yn anfuddiol i gynnyg yr ychydig sylwadau canlynol i ystyriaeth darllenwyr yr *Ymofynydd*. Mae'r pwnc o bwys mawr, ac y mae eisieu ei drafod. Nid yw ddim llai na chwilio am sylfaen i'r hyn fyddom yn adeiladu, a bod honno wedi ei gosod ar y graig. Dywedodd ein Hiachawdwr ei hunan mai "i hyn y ganwyd ef, ac i hyn y daeth ef i'r byd, fel y dygai dystiolaeth i'r gwirionedd." Y mae llawer, fel Pilat, yn barod i ofyn y cwestiwn, "Beth yw gwirionedd?", yn ddiystyrllyd, o bosibl fel yntau, ac fel yntau yn y fan yn "myned ymaith", heb ofalu am gael attebiad iddo. Nid wyf yn disgwyl y bydd fy sylwadau i roddi nemawr foddlonrwydd i'r gwyr hyny, am ba rai y gellir dywedyd mai eu credo yw, mai "ar fara yn unig", neu bethau teimladwy cyffelyb, "y bydd byw dyn." Pa un ai ydynt yn cyfenwi eu hunain yn *Secularists*, ai peidio, yn y byd hwn yn unig maent yn credu. Credant mewn bwyd a diod, mewn angenrheidiau a phleserau corphorol, mewn gallu cyfoeth ac awdurdod, a phethau gweledig a theimladwy cyffelyb; ond dim yn mhellach. Credant mewn oerni a gwres, mewn môr a mynydd, yn y gwynt a'r gwlaw, ac yn nghyfreithiau anian; ond am y Bod a wnaeth dir a môr a ffurfafen, a'r hyn oll sydd ynddynt, ag sydd "yn dwyn y gwynt allan o'i drysorau, ac yn peri i'r gwlaw ddisgyn a'r haul lewyrchu ar ein byd",—y Bod anweledig, yr hwn a sefydlodd gyfreithiau natur, ac sydd yn barhaus yn eu cadw mewn trefn, dywedant na wyddant ac nad ellir gwybod dim yn sier am dano. Gyda'u holl wybodaeth am elfenau a chyfreithiau anian, y maent "heb obaith ganddynt, ac heb Dduw yn y byd." Nid i'r cyfryw yr wyf yn cyflwyno fy sylwadau; eithr i'm cyd-grefyddwyr. Ac nid wyf yn cymmeryd arnaf ddysgu'r ffordd i ddynion fod yn anffaeledig; i daeru mai hwynt-hwy a'u plaid yn unig sydd a'r gwir ganddynt, ac i gondemnio i'r fflamiau bawb sydd yn amrywio yn eu barn oddiwrthynt hwy. Y mae gormod o'r fath eisioes, fel mae gwaetha'r modd. A druain o nhwy, mae eu hanffaeledigrwydd, honniedig neu dybiedig, yn ymddangos yn bur wael yn ngwyneb bod y naill yn croesi ac yn diddymu'r llall, a'r gwahanol anffaeledigion yn rhyfela yn ffyrnig yn erbyn eu gilydd. Dymunwn gymhell ar y darllenwyr, ac arnaf fy hun, yr addysg a roddir gan wers yr hen ddoethwr Groegaidd, ', Adnebydd dy hun." Y mae pob dyn pwyllog yn gwybod yn brofiadol ei fod yn agored i gamsynied. Dylem bob amser gofio a theimlo hyn.

Ond rhaid i mi ddechreu fy sylwadau trwy ddywedyd fy mod yn cymmeryd un peth yn ganiatäol, fel *gwirionedd anffaeledig*; sef, *bodoliaeth Duw*. Y mae rheswm ac ymwybodaeth yn ein dirgymmell i gredu fod Duw. Dyma'r gychwynfa—*starting point*—oddiwrth pa un y ceisiwn gyrchu at *nodau'r gwirionedd* a *gwir grefydd*. Bydd pob crefyddwr i gyduno â mi i gymmeryd hyn fel gwirionedd anffaeledig. Dyma'r garreg sylfaen ogoneddus. Byddwn ofalus pa fodd y byddom yn goruwch-adeiladu. Y mae llyfr creadigaeth Duw o flaen ein llygaid. A fedrwn ni ei ddarllen yn iawn? O na! y mae ei ddarllen a'i ddeall yn gyflawn yn orchwyl uwchlaw gallu dyn meidrol, ac fe fydd felly dros oesoedd cynnyddol anfarwoldeb y nef. Ond trwy help rheswm—llygad y deall—er yn amherffaith iawn, yr ydym yn awr yn gallu darllen cymmaint ar lyfr creadigaeth Duw fel ag i weled yn amlwg ynddo, fod gallu a doethineb y Crewr Mawr yn anherfynol; ac arweinir ein meddw

yn anocheladwy i'r casgliad, fod y gallu a'r doethineb ag a greodd ac a drefnodd, yr un mor angenrheidiol i gynnal a llywodraethu y greadigaeth; a chan fod Duw yn cynnal pawb a phob peth, y rhaid ei fod yn Hollbresenol; ac yn ganlynol, fod pawb o honom yn ymddibynu arno am "fywyd ac anadl a phob peth oll." Gyda'r wybodaeth ryfedd hon y mae ein crefydd yn dechreu. Hyn a'm harweinia i sylwi mai wrth y gwirionedd, yn yr ymchwiliad sydd mewn llaw, y byddaf yn deall *gwirionedd crefyddol;* hyny yw, golygiadau cywir ynghylch priodoleddau, caracter a llywodraeth Duw, ei ewyllys a'i amcanion; a'r ffordd i ni ryngu ei fodd.

Ond beth yw crefydd? Y mae'r gair Groeg *(threskeia)* a arferir am dano yn y Testament Newydd, yn arwyddo gwasanaethu neu ryngu bodd Duw. Cymmer rhai fod y gair Lladin am dano, o ba un mae'r Saesnaeg *religion* yn deilliaw, yn arwyddo aml-ddarllen neu ddwys-fyfyrio; craill, ei fod yn meddwl yr hyn sy'n rhwymo dyn i gyflawniadau ac ymarweddiad cyfattebol i'w argyhoeddiadau. Ystyriaf fod y gair Cymraeg crefydd (ond yr wyf yn llefaru gydag ymostyngiad) yn cael ei wraidd oddiwrth *crefu*, dwys-ddymuno, taer-ddeisyf; ac felly yn arwyddo rhyw daer-ddymuniad mewn dyn a thynfa at ryw beth uwchlaw cynnaliaeth a phleserau corphorol, a llwyddiant bydol; ac ymbwysiad ar ryw allu uwchlaw daearol. Ac y mae pob un o'r rhai'n yn ddesgrifiadol, mwy neu lai, o amcan crefydd. Mae ceisio rhyngu bodd Duw yn rhan anhebgorol o grefydd; ac y mae dwys-fyfyrio ar bethau Duw yn cyfodi yn naturiol oddiwrth gredu yn ei briodoleddau a'i lywodraeth; ac yr un mor naturiol, trwy effaith annogaethau, yn rhwymo dyn i ymarweddiad a gweithredoedd ag sydd tuhwnt i gyrhaedd a gafael llywodraethau daiarol. Ac yn ddiau mae *crefu* ar Dduw, ag ymbwysiad arno, fel un ag y mae'r ewbl o'n gwynfyd neu ein gwae ar ei law, i'w roddi neu ei attal, fel y mynno; ein hyder ynddo, ein ufudd-dod iddo a'n disgwyliad wrtho, yn ymddibynu ar y syniadau fyddom yn eu lletya am ei garacter a'i lywodraeth ef. Oddiwrth hyn fe ganlyn fod cyssylltiad angenrheidiol rhwng y gwirionedd a gwir grefydd.

(I'w barhau.)

GOSODIAD A GWRTHOSODIAD.

GOSODIAD.

(Gwel Gwinllan y Bardd, tudal. 208.)

ANGHREDINIAETH, cau dy enau,
Yma gorwedd yn y llawr,
Lwch tri baban; dywed imi,
Ai cadwedig ynt yn awr?

Os trwy bechod mae marwolaeth,
Hwy bechasant—maent mewn bedd;
Os trwy fuchedd dda ceir nefoedd,
Hwy nid allant fod mewn hedd.

Reswm, O mor wanned ydwyt,
Edrych i ddatguddiad Duw—
Pechodd Adda—buont feirw—
Crist oddefodd—maent yn fyw.

GWRTHOSODIAD.

GAUATHRAWIAETH, cau dy enau.
Yma gorwedd yn y llawr;
Lwch tri baban; dywed imi,
Ai cadwedig ynt yn awr?

Nid trwy bechod mae marwolaeth,
Er heb bechu—maent mewn bedd;
Os na chosbir cyn troseddu,
Rhwym ynt hwy o fod mewn hedd.

Os anfoddlon wyt i reswm,
Edrych i ddatguddiad Duw—
Pridd oedd Adda—buont feirw—
Crist gyfodwyd—maent yn fyw.

DEWI DAWEL.

Gohebiaethau.

CYWIR DDARLLENIAD 1 Tim. iii., 16.

Llythyr II. *Mr. Jones.—Annibynwr, Mehefin*, 1858.

Dywedaf air yn nesaf am *os*. Er fod *os* gymaint yn erbyn Mr. E. ag yw yn fy erbyn inau, ymddengys ef yn benderfynol i'w amddiffyn yn hytrach na rhoddi ei le priodol i *Theos*. Dywed Mr. E. nad wyf yn nodi ond dwy o'r amryw ysgrifau sydd yn amheus. Mae dwy yn llawer o chwech, yn enwedig wrth ystyried mai y rhai hyny yw y rhai hynaf a mwyaf eu hawddurdod yn ol barn Mr. E. Addefaf fod G, 17, a 73, yn darllen *os;* ac ni ddadleuaf â Mr. E. yn nghylch eu hoed yn bresenol. Ond nid yw y rhai hyn ond un tyst wedi y cyfan, yn ol cynllun Griesbach, gan eu bod yn perthyn i'r un teulu. Felly nid oes ond G o'r tair yma yn gofyn sylw. Perthyna G i'r teulu Alexandraidd, o ba rai mae wyth (6, 10, 23, 31, 37, 39, 46, 47,) yn darllen *Theos;* felly mae yn bur debyg mai gwall ysgrifen barodd i G fod dros *os*, yr hyn a ddilynwyd gan 17, a 73. Nid yw G yn debyg yn hŷn na'r nawfed ganrif.

Ond y mae A, C, F, eto yn aros, ac ni fyn Mr. E., er dim, eu rhoddi i fyny. Rhaid i mi ynte chwilio natur eu hawl iddynt.

Gyda golwg ar A, mae Young, Junius, Huish, Mill, Wotton, Croyk, Fell, Grabe, Ridley, Gibson, Hewitt, Pilkington, Berriman, Walton, Woide, ac eraill, yn cyduno i dystio mai *Theos* oedd y darlleniad gwreiddiol. A dywed Berriman i Wetstein addef ei fod wedi gweled llinell yn nghanol yr *o*, er iddo geisio gwadu hyny drachefn. Dywed Berriman iddo edrych lawer gwaith ar yr ysgrif, a methu gweled y llinell â llygad noeth, ond wrth ei ddal yn yr haul, ac edrych arno trwy chwyddwydr, yr oedd yn canfod rhan o'r hen linell ar yr ochr chwith; yr oedd Gibson a Ridley gydag ef y pryd hwnw ac yn gweled yr un peth Mae Mr. E. yn gofyn yn sobr i mi, a wyddwn dyst olaeth Griesbach pan yn dywedyd nad oedd y rhan yma o'r ysgrif yn ddarllenadwy. Gofynaf finau a wyddech chwi, Mr. E., dystiolaeth y boneddigion uchod pan feiddiech ddyweyd fy mod i yn *haeru pethau disail?* A diau fod eu tystiolaeth hwy yr un mor deilwng o grediniaeth ar bwnc fel hyn a'r eiddo Griesbach, yn gymaint a'u bod wedi gweled yr ysgrif o driugain i gan mlynedd, a rhai fwy na hyny, cyn i Griesbach agor ei lygaid y tro cyntaf. Yr oedd ganddynt hwy well cyfle i farnu beth oedd y darlleniad gwreiddiol na Griesbach, oblegid mae triugain neu gan mlynedd yn effeithio cryn lawer ar lawysgrif, heb son am yr holl fodio fu arni yn ystod hyny o amser.

Gofynaf yn mhellach, a wyddech chwi fod Griesbach ei hun yn dyweyd, "Pan chwiliais yr ysgrif hon teimlwn yn ofidus iawn fod y rhan o'r ddalen a gynwys y darlleniad amheus wedi treulio fel na fedr dyn marwol gael allan beth oedd y darlleniad gwreiddiol." Yn awr beth yw nerth eich dyfyniad chwi er tafiu lawr fy ngosodiad (nid haeriad) i sydd a'i sail ar y graig? Os yw eich dyfyniad yn gywir o ddywediad penderfynol Griesbach, mae yn profi y medrai yntau wrth ddywedyd ei hun. Y mae Griesbach yn ei *Symbolae Crit.* cyf. i., tudal. 29, yn addef nad yw yr ysgrif hon yn bleidiol iddo ef dros ddarllen *os*. Felly rhwng Mr. E. a Griesbach, gan fod y blaenaf yn camddyfynu neu gamddeall yr olaf, neu Griesbach yn gwrthddyweyd ei hun.

Yn nesaf, beth am C, neu Codex Ephrem. Mae y llinell yn nghanol yr *o* yn eisiau yma eto, ac felly hefyd mae yn eisiau o'r llythyren olaf ond un, yr ephanerôthi, yn yr un frawddeg, gan ei wneyd yn *ooi*. Ond dywed Woide a Velthusen fod y llinell uwchlaw yr *o* yn ddigon amlwg, a barna Less mai yr un llaw a wnaeth y llythyrenau a'r llinell. Mae Wetstein yn dra anmhenderfynol. Yr wyf yn meddwl, medd efe, mai *os* sydd yn C, gan nad yw y llinell yn nghanol yr *o* yn weledig, ond y mae yno linell arall uwchlaw y llythyrenau, yr hon, fe ddichon, a wnaed gan law ddiweddarach. Dywed Griesbach ei fod yn hollol benderfynol mai *os* oedd y darlleniad gwreiddiol; ond ychydig ddalenau yn nes yn mlaen dywed, "Oddiwrth amryw bethau yn yr ysgrif ymddengys yn bur debygol mai *os*. ac nid *Theos*, oedd y darlleniad gwreiddiol." Mae y cyfnewidiad yma yn null Griesbach o siarad yn dangos nad oeddwn yn siarad yn hollol ddisail pan yn dyweyd fod y darlleniad yn amheus. Wrth ystyried pob peth, meddyliwyf fod fy adeilad yn llai, ac nid yn fwy nag a oddefai y sail. Mae pob tebygolrwydd yn bleidiol i'r dybiaeth mai *Theos* oedd y darlleniad gwreiddiol.

Gallwn sylwi am yr ysgrif C, nad yw ond gweddillion neu olion ysgrifen y methodd Ephrem y Syriad ei rhwbio allan pan yn ceisio glanhau y croen i ysgrifenu arno ei waith ei hun; felly gwelir ar unwaith nas gall fod yn eglur iawn.

Mae F yn aros eto. A wyddech chwi ddim, Mr. E., nad yw F y Boreelian yn cynwys ond y pedair Efengyl? Rhyfedd iawn

fod dyn a sieryd gymaint am bwyll a gofal yn gwneyd camsyniadau mor bwysig, ac yn bradychu ei hun mor fawr. Darfu i chwi gamsynied enw a lle preswylfod eich cyfaill D Gwir i chwi gywiro yr enw, a dim ond hyny, yn eich ail lythyr, yr hwn a ddaeth i'm llaw wedi mynediad fy llythyr cyntaf i'r wasg.

Dyma chwi eto yn camsynied enw F. Ac onid yw hyn lawn mor warthus ag i mi ddyweyd fod 150 o ysgrifau dros *Theos?* Yr wyf yn cael lle i dybied nad yw eich cydnabyddiaeth â'ch hen gyfaill Griesbach ond ychydig, er amled y cyfeiriwch ato.

Pe gwybyddwn y teimlech yn ddiolchgar cynorthwywyn chwi allan o'r pwll hwn, a gosodwn chwi yn iawn gyda golwg ar F Boreelian yn gystal a'r F arall yr ydych yn ymbalfalu am dani; ond gan nad ffordd y teimlwch, byddaf mor fwyn a'ch hysbysu am F Boreelian. Mae yn cynwys y pedair efengyl, ond yn dra bylchog. Mae wedi ei hysgrifenu yn bur debyg tua'r nawfed ganrif, ac yn bresenol yn llyfrgell prif ysgol Utrecht. Ond F Augiensis y gelwir yr F a gynwys epistolau Paul. Mae hon yn llyfrgell prif ysgol Cambridge, lle y rhoddwyd hi gan Thomas Bentley. Tebygol iddi gael ei hysgrifenu tua diwedd y nawfed ganrif. Mae eich camsyniad yn fwy anesgusodol gan fod y ddwy ysgrif mor bell oddiwrth eu gilydd, na pha phe buasent yn yr un llyfrgell.

Un o deulu yr ysgrifen Alexandraidd yw F Augiensis. Mae y llinell wedi treulio o ganol yr *o*, os bu yno erioed, ond y mae llinell ddigon amlwg uwchben y ddwy lythyren *os*. Gofyn y dysgedig Matthaei, "Beth feddyliech yw llinell uwchben yr *os?* Oblegid gwyr pawb nad yw y rhagenw *os* â llinell uwchben iddo mewn unrhyw ysgrif.—*Theos* yn unig sydd wedi ei linellu er dangos fod llythyrenau wedi eu gadael allan." Felly mae yn fwy na thebyg mai *Theos* oedd yr ysgrifenydd am i ni ddeall wrth y ddwy lythyren a'r llinell uwchben iddynt. *Theos* mewn llaw fer yn ol yr hen drefn sydd yn yr ysgrif yn bresenol, ac y mae y llinell uwchben er dynodi fod llythyrenau wedi eu gadael allan o eiriau, yn beth mor gyffredin yn yr ysgrif hon ac eraill, fel nad oes y sail leiaf i dybied iddynt gael eu gosod i mewn gan law ddiweddarach.

Yn awr, gan i Mr. E. wrthod gadael i mi droi A a C allan o'r ddadl, rhaid iddo roddi i fyny i mi A, C, D, F, fel yn bleidiol i *Theos*, neu ddwyn profion cadarnach nac *ipse dixit* Griesbach ac yntau yn erbyn hyny. Nid oes nemawr o hen gyfeithiadau ellir ystyried yn bleidiol i'r darlleniad *os*, na dim un yn benderfynol, gan nas gellir dyweyd pa un ai *o* neu *os* a bleidiant; ac yr ydym eisioes wedi dangos nad yw y cyfeithiadau henaf yn brawf pendant beth oedd y darlleniad yn yr ysgrifau a ddefnyddiai y cyfeithydd, yn gymaint a'u bod weithiau yn defnyddio y rhagenw pan fyddo yr enw yn dygwydd fwy nag unwaith yn yr un frawddeg. Os yw barn Mr. E. yn gywir mai Iuddewon oedd y cyfeithwyr cyntaf, â hyn yn mhell i esbonio paham y gwnaent felly. Mae yn hysbys na fynai yr Iuddewon tuag amser Crist er dim ddywedyd y gair Jehofa. Defnyddient eiriau eraill cyfystyr. Naturiol iawn, ynte, iddynt ddefnyddio rhagenw, neu rywbeth yn lle enwi y Bod mawr ond mor anaml ag ydoedd modd. Nid oes ond dau o'r tadau Lladinaidd yn darllen *qui* neu *os*, ac nid oes dim un o'r tadau Groegaidd yn bleidiol iddo. O'r holl engreifftiau a nodir gan Griesbach, nid oes un lle gellir profi eu bod yn dyfynu y geiriau. Cyfeirio yr oeddent at ymadroddion yr apostol yn eu geiriau eu hunain: gwel Matthaei N. T., cyf. viii. tudal. 41—53. Meddyliaf y gwel pob darllenydd diragfarn nad oes nesaf peth i ddim sail dros dybied mai *o* neu *os* oedd y darlleniad gwreiddiol, gan fod pob tyst o bwys yn eu herbyn.

Rhaid i mi sylwi yn y fan hon eto fod Mr. E. yn ei awydd am gadw *Theos* allan wedi gwneyd cam â'r ysgolhaig gofalus, a'r ysgrifenydd eglur ac enwog hwnw, Dr. J. Pye Smith. Dywed Mr. E., "Y darlleniad mae y gwr enwog hwn yn gymeradwyo yw *os*, yr hwn, neu *o* yr hyn."

Dywed Dr. J. Pye Smith ei hun, Script. Test., 4ydd argraffiad, cyf. ii. tudal. 384, sef yr argraffiad diweddaf, ac hefyd yn cyf. iii. o'r 3ydd argraffiad, "Teimlodd awdwr y gwaith hwn anhawsdra dirfawr i benderfynu rhwng *os* a *Theos*. Am *o*, nid oes dim prawf o'i blaid all beri llawer o amheuaeth. Bu dros amser dan ddylanwad ymresymiad Griesbach a Henrich yn tueddu at *os*.

Ond yn bresenol wedi ymchwiliad manwl a phoenus mae wedi ei argyhoeddi fod y dystiolaeth gryfaf o lawer o blaid *Theos*."

Mae tri pheth yn hollol amlwg yma. 1. Fod Dr. J. Pye Smith yn ystyried nad oedd fawr o brofion gwerth sylw o blaid darllen *o*, yr hyn.

2. Ei fod yn gwbl argyhoeddedig mai *Theos*, ac nid *os* neu *o*, yw y darlleniad cywir, ac y mae yn dyweyd mor eglur ag y medr iaith wneyd.

3. Fod Mr. E. wedi camddeall neu gamddarlunio barn "y gwr enwog hwn." Mae camddeall ysgrifenydd mor eglur yn warthus, ond y mae camddarlunio dyweiadau mor bendant yn anfaddeuadwy.

Mae genyf finau yn bresenol hawl i ofyn genych chwi, Mr. E., gyfaddef eich camsyniadau a'ch beiau mor gyhoeddus ag y gwnaethoch hwynt. Cyn gynted ag y prof-

wch chwi fy mod i yn feius neu gamsyniol, mor eglur ag yr wyf fi wedi profi eich bod chwi y tair gwaith hyn, addefaf yn union; ond nid wyf wedi gweled dim yn fy euog farnu, ac nid wyf yn teimlo y radd leiaf o euogrwydd ynof fy hun.

Rhag blino y darllenydd rhaid aros y tro hwn eto hcb fyned yn mlaen i ddangos y profion dros *Theos*.

RHYS GWESYN JONES.

Llythyr V. *Mr. Evans.*

Sylwadau ar Lythyr II. *Mr. Jones yn yr Annibynwr.*

MR. GOL.,—Wedi sylwi ar lythyr cyntaf Mr. J. mewn atteb i mi, yr wyf yn awr yn myned yn dra hyderus at ei ail. Y mae fy ysgrifau yn chwyddo dan fy llaw, fel y gellir dywedyd am danynt *crescunt eundo*; ac nid rhyfedd, gan fod un haeriad disail, o ychydig linellau neu eiriau, lawer pryd yn gofyn tudalenau rai i'w wrthbrofi.

Dywed Mr. J., er fod *os* yn fy erbyn i gymaint ag yntau, fy mod yn benderfynol i'w amddiffyn yn hytrach na rhoddi ei le priodol i *Theos*. Nid oes un gair o wir yn hyn. Yr wyf yn benderfynol, hyd a allaf, i gael allan y *gwir* ddarlleniad, pa un ai yn fy erbyn ai peidio, a thyna i gyd, a chaiff *Theos* ei le priodol yn union y gwelwyf y lle priodol hwnw; ond nid priodol iddo gael lle yn yr adnod mewn dadl, fel y dangosais eisioes mewn rhan, ac y dangosaf yn helaethach etto yn y llythyr canlynol. Y mae Mr. J. yn addef fod G, 17, a 73 yw darllen *os*. Diolch i Mr. J. am hyn; caiff addef rhagor etto mewn canlyniad i hyn. Fe ddaw'r G ag un arall gyda hi ond odid. Ond er mwyn gwneyd yn ddiwerth yr hyn addefodd, fel yr hen lwynog byth a'i rawnsypiau surion, dywed, "Perthyna G i'r teulu Alexandriaidd, o ba rai y mae wyth (6, 10, 23, 31, 37, 39, 46, 47) yn darllen *Theos*, (*a*) felly mae'n bur debyg mai gwall ysgrifen barodd i G fod dros *os*, yr hyn a ddilynwyd gan 19 a 73." Caiff atteb llawn i hyn pan sylwaf ar F a G. Ond hyn allaf ddywedyd yn awr, fod hyd yn oed rhoddion Mr. J. yn bethau i'w bofni.—"*Timeo Danaos et dona ferentes.*" Beth wnaeth i Mr. J., gan ei fod gymaint dros feirniaid diweddar, adael yr ysgrif 181 allan o'r nifer. Y mae'r beirniaid diweddaraf yn dywedyd ei bod dros *'os*. Dr. Davidson—"Y mae hwn (sef *'os*) yn cael ei gynal gan A a'r llaw gyntaf, C a'r llaw gyntaf, F, G, 17, 73, 181." Bib. Crit. tud. 829. Scott Porter—"Y mae *'os* yn cael ei gynal gan y llaw-ysgrifau A, C, F a G, megis ei newidiwyd oddeutu'r 9fed canrif; hefyd gan y copiau 17, 73, **171**, (coll y wasg, yn lle 181). Alford—Yr un peth: a Scholz hefyd. Daw rhagor o Scholz i'r golwg heb fod yn faith. Gan fod Mr. J. yn gwrthod awdurdod Griesbach, y mae genyf yr un hawl ag yntau i ddefnyddio y beirniaid diweddar.

"Gyda golwg ar A, ebe Mr. J., mae Young, Junius, Huish, Mill, Wotton,

a Y mae'r wyth llaw-ysgrif hyn yn cael eu nodi fel yn perthyn i deulu Alexandria gan Mr. Jones. Rhoddaf finau farn Scholz ar y rhain; p'un ai Mr. Jones neu Scholz, ei feirniad diweddar ef, sydd iawn, nid wyf yn beiddio dywedyd. Y mae'r ddau yn wyr mawrion, ie, a mawr iawn mewn collion a chamsyniadau. Dywed Scholz fod chwech yn perthyn i deulu Constantinople. Wele ei eiriau, "6 (*Eo.* 6, *Act.* 6,) *Reg.* 112, *Textum habet mixtum.*" Wrth droi i'r rhif 6, yn yr Actau, dywed fel hyn, "6 (*Ec.* 6, *Paul* 6), *Reg* 112, *Textum habet Const.*" Felly yn ei list o law-ysgrifau yn llythyrau Paul, y mae Scholz yn dywedyd fod 6 yn cynnwys testun cymmysgedig, ac yn ei *list* yn yr Actau, y mae'n dywedyd fod yr un llaw-ysgrif yn perthyn i deulu Constantinople; o leiaf, nid yw yn perthyn i deulu Alexandria, fel y dywedodd Mr J. Am 10 dywed, "10 (*Act* 8.) *Steph. ea ignotus.*" Felly mae 10 yn perthyn i deulu anadnabyddus. "23 *Coisil.* 28 *ol.* 253, * * * *Fam. Const. adhaeret.*" Y mae 23 Mr. J. yn perthyn i deulu Constantinople. Y mae Scholz yn priodoli 31, 37, a 46, yn perthyn i deulu Alexandria y rhan fwyaf. Nid yw yn dywedyd o bwy deulu y mae 39. Wele'r cwbl a ddywed, "39 (*Act.* 33.) *Lincolniensis* 2." Ac yn ei *list* yn yr Actau dywed, "33 (*Paul* 39.) *Lincoln.* 2, *Linc. Coll. Oxford. Membr. sec.* xi., *Act. et Ep. cont. cum. prol. mut.* 2 Petr i. 1—15." Dyna'r cwbl Mr. J. Felly y mae gennych *dair*, ie, a *dim ond tair* o'r wyth yn perthyn i deulu Alexandria, yn ol Scholz. Ond bid rhyngoch eich dau. Y mae'r wers hon yn dâyledus i chwi am yr addysg a roddasoch i mi, mor garedig, am i mi gamsynied preswylfeydd tair llaw-ysgrif. Dyma chwithau yn camsyned *tair* o *wyth*, Mr. J.

Croyk, Fell, Grabe, Ridley, Gibson, Hewitt, Pilkington, Berriman, Walton, Woide, ac eraill, yn cyduno i dystio mai *Theos* oedd y darlleniad gwreiddiol." Yna y mae'n gofyn, "A wyddech chwi, Mr. E., dystiolaeth y boneddigion uchod pan feiddiech ddyweyd fy mod i yn *hyeru pethau disail?*" Yr achos y beiddiais ddywedyd fod Mr. J. yn haeru pethau disail oedd fy mod mor ffol a meddwl y buasai ef, fel ei gyfaill Wardlaw, yn derbyn Griesbach fel awdurdod; ond gan na wnaiff hyny, y mae hyn yn well i mi, a gwaeth iddo yntau o lawer. Nid wyf yn meddwl wrth hyn roddi Griesbach i fynu mewn dim lle y mae'n iawn. Ond yn awr at y boneddigion uchod. Wel, y mae Mr. J yn dwyn ymlaen BYMTHEG *o dystion* dros *Theos*. Yn hyn, fel y cawsom ef unwaith o'r blaen, y mae ef am ymddangos yn hynod o ddysgedig. Ddarllenwyr hynaws, yr wyf o'r farn na welodd waith un o'r boneddigion uchod. Gwelodd y *list* yn rhywle, a chopïodd hi yn wallau a chwbl, fel yr oedd o'i flaen ef. Ond gan mai efe, ar ei awdurdod ei hun, sydd wedi dwyn y *list* uchod, o *bymtheg* o foneddigion o flaen y cyhoedd yn yr *Annibynwr, efe* ac nid *neb arall* sydd attebol am dani, yn wallau a chwbl sydd ynddi. Pe buasai yn nodi yr awdwr o'r hwn y cymerodd hi, buasai yn well iddo, caiff weled, er trwy hyny orfod ymddangos ychydig yn llai dysgedig i'r cyhoedd. Yn awr, Mr. J., byddwch barod; y mae eich *list* dwyllodrus ar gael ei chwilio. A wyddech chwi Mr. J. mai yr un dyn oedd Young a Junius; mai Patrick Young y gelwid ef ganddo ei hun ac eraill yn Saisonaeg, ac mai Patricius Junius y rhoddai ei enw yn Lladin? Felly, syr, rhanasoch yr *un* dyn i wneuthur *dau* dyst o hono. Y mae hyn o bwys yn y ddadl, oblegid pa fwyaf o dystion dros eich gosodiad goreu i gyd, bid sicr. Beth yw camsynied preswyliod llaw-ysgrif at hyn? Gallasech wneyd pedwar o'r un dyn llawn cystal, sef Patrick, Patricius, Young, a Junius; a phe cyfieithid ef i'r Gymraeg, Groeg, Hebraeg, Syriaeg, Arabaeg, Ffrancaeg, gallasech gael deuddeg o dystion yn rhagor, a phob un o honynt mor ddibynniol a'r ddau a enwasoch. *Pro pudor*—"*for shame!*" unwaith etto. Na esgynwch yn rhy uchel er mwyn dangos eich bod y peth nid ydych. Byddai yn dda i chwi gofio geiriau *un* a ddylai gael ei wrando, "A phwy bynag a ddyrchafo ei hun a ostyngir." Wele un o'ch pymtheg tyst wedi myned i'w le ei hun; p'un ai Young neu Junius, dewiswch chwi. Ond beth am dystiolaeth Young nen Junius? Nid yw o fawr na dim gwerth; oblegid y mae Wotton, un o dystion Mr. J. ei hun, wedi dywedyd mai fe, sef Young, neu Junius yma, wedi iddo gael y llaw-ysgrif hon am yspaid dan ei ofal, ddarfu osod i fewn y *strokes* duon sydd i'w gweled ynddi yn bresenol! Ac os yw tystiolaeth Wotton yn dda pan o du Mr. J., y mae yr un mor dda er yn ei erbyn. Caiff Wotton lefaru yn ei eiriau ei hun, fel y maent yn Woide. Wedi dywedyd mai QC EPH oedd y darlleniad erioed, yr hyn sydd amlwg i'r neb a edrycho ar y lle hwn â llygad craff, y mae Wotton yn chwanegu, "*Licet illo in loco, nec non in aliis hand paucis, Junius diligentia minime probanda, recentiore calamo utramque lineam duxerit;*" h. y., Er yn y lle hwn, ac hefyd mewn amryw o leoedd eraill, i Junius, trwy ddiwydrwydd nad yw yn y mesur lleiaf i'w gymeradwyo, dynu y ddwy linell â phin diweddarach. Gwel Woide Proleg to Codex Alex. p. xxx. Pe buasai yr hen linellau yn amlwg, buasai yn ddirwg iawn gan Junius eu gorchuddio ag inc tew, fel nad ymddangosent byth mwy i neb ond y rhai a allent weled trwy ei orchudd tew a thywyll ef. Felly, wele dystiolaeth dau o dystion Mr. J. wedi troi allan yn dwyllodrus ac yn ddiwerth. Eto y mae Mr. J. yn dyfynu Huish a Walton fel *dau* dyst *gwahanol*. Y mae'n wir fod yma *ddau* ddyn, ond *un* dystiolaeth rhyngddynt; oblegid ni wnaeth Walton ond yn unig argraphu yn ei *Bolyglott* y gwahanol ddarlleniadau a ddanfonodd Huish iddo, yr hwn a chwiliodd y llaw-ysgrif hon er mwyn ei waith mawr ef. "Nid yw yn ymddangos, medd Scott Porter, oddiwrth y Prolegomena, y *Notes* na'r *Appendix*, nac oddiwrth y *Considerator Considered*, fod Walton ei hun erioed wedi chwilio *text* y llaw-ysgrif hon." Dywed ymhellach, nad yw tystiolaeth Huish ddim yn profi rhagor na hyn, mai QC oedd i y darlleniad yn ei amser ef, fel y mae yn bresenol; ond ni thelid fawr o sylw i'r gwahaniaeth rhwng dwylaw hen a diweddar yr amser hwnw megis y gwneir yn awr. Felly wele bedwar tyst

wedi eu troi heibio. Ni wnaeth Esgob Fell, medd Porter, ac nid wyf yn gallu gweled yn amgenach oddiwrth Woide, ond yn unig ail-argraphu darlleniadau y llaw-ysgrif Alexandriaidd, FEL *y rhoddid hwynt yn y Polyglott*. Felly, os na ddwg Mr. J. dystiolaeth bendant Fell yn ei eiriau ei hun ar y mater, rhaid iddo ymadael a phump o'i dystion. Y mae eich sail yn malurio yn gyflym, Mr. J.! Yn awr wele *list* Woide, a thebyg ei bod yn fwy cywir nag un Mr. J. "Rhaid ydyw credu tystiolaeth y rhai hyny, ebe fe, awdurdod pa rai a allwn yn unig ddilyn, Junius, Fell, Walton, Grabe, Mill, Berriman, ac eraill." *Ibid.* Nid oes yma ond saith rhwng Woide ei hun. Ond gan i Woide gamsynied yng nghylch un pwnge pwysig, gallasai gamsynied hefyd ynghylch y llinell ynghanol y G. Dywed ef, gyda Harper, gan fod yr O yn uwch i'r lau na'r E yr ochr arall i'r memrwn, nis gallasai llinell yr E ymddangos ynghanol yr O, fel hyn, ϶O. Pe *gwir* hyn, ni allasai yr hyn a ddywedod i Wetstein fod yn wir. Ond y mae Scott Porter, Elliott, ac eraill, wedi dang os tuhwnt i ddadl mai Wetstein oedd iawn, a Woide yn *wrong*, fel y caf ddang os heb fod yn faith. "Eto dywed Berriman, ebe Mr. J., iddo edrych lawer gwaith ar yr ysgrif, a methu gweled y llinell â llygad noeth, ond wrth edrych arno trwy chwyddwydr yr oedd yn canfod rhan o'r hen linell ar yr ochr chwith, &c.' Dyma yn gymwys fel y gallasai fod hefyd; oherwydd dywed Wetstein, ar ol darllen yr hyn a ddywedodd Berriman, iddo ef ddyfod i Loegr, ac ar ei gais aeth cyfaill gydag ef i chwilio'r llaw-ysgrif. Dywed wrth gyfodi y ddalen i fynu yn yngoleuni yr haul y gallesid gweled ol yr hen linell ynghanol yr O; ond bob tro y gosodent y ddalen i lawr ar y dail eraill, ei bod yn diflannu. Yr oedd Wetstein yn methu deall yr achos, nes i'w gyfaill sylwi mai llinell ynghanol yr Ɛ *ar yr ochr arall* oedd yn achosi yr ymddangosiad. Felly fe welodd Wetstein linell ynghanol yr O mae'n wir, ond anghofiodd Mr. J. ddywedyd pwy ochr i'r ddalen yr oedd hi.

Gair etto cyn gadael boneddigion Mr. J. Fy marn i yw iddo ei chymeryd hi yn ei chrynswth o Dr. Davidson, neu ellai o'r un ffynon ag y cafodd Dr. Davidson hi, nid yn unig oherwydd ei bod ymron yn amhosibl i ddau ddyn osod pymtheg o enwau, un ar ol y llall, yn cynwys yn yr un drefn, heb gopio un o'r llall neu'r ddau, o ryw awdurdod gyffredin. Yn ol rheol *Permutation* byddai ganddo dros ddeuddeg can mil o filiynau o *chances* yn erbyn un iddo byth ddigwydd eu gosod felly. Os o Dr. Davidson y cymerodd hi, y mae genyf un gair o gynghor i Mr. J., sef iddo ddilyn y Dr. i gyweirio ei wall. List y Dr. yn awr yw hon, "Young, Wotton, Mill, Croyk, Berriman, Woide, Grabe." A wnaiff Mr. J. fod mor hunanymwadol, am unwaith, a phrofi ei *list*, trwy ddyfynnu dau allan o foneddigion yn eu geiriau eu hunain, a'i gyfeithiad yntau yn canlyn, neu addef ei gamsyniad mor gyhoeddus ag y gwnaeth ef?

Mewn perthynas i'r hyn a ddyg Mr. J. yn erbyn Griesbach, y mae yn eithaf gwir, ac nid wyf yn meddwl ei amddiffyn ef, na neb arall, lle y maent yn feius. A'r hyn sydd waeth byth, ar yr un tudalen lle y mae y geiriau a ddyfynodd Mr. J. o Griesbach, y mae yn gosod allan, er fod y man hwn o'r ysgrif yn annealladwy, ei fod er hyny yn beiddio dywedyd yr un mor hyderus mai gwir a ddywedodd y rhai a sierhaent mai *'ὸs* oedd yn y llaw-ysgrif hon ar y cyntaf. Ond colled Griesbach oedd dywedyd fod y rhan hon yn annealladwy, yr hyn yn sier sydd feius, yn ol y *fac simile* sydd o'm blaen yn awr. Y mae'r gair ΘC yn ddigon amlwg, a'r llinell ynghanol y *theta* a'r un uwchben o inc diweddar iawn. Tystia J. Scott Porter, yr hwn a chwiliodd y rhan hon lawer gwaith, ei fod yn eithaf darllenadwy. Ar ol dyfynu geiriau Griesbach y mae'n dywedyd, "Hyder eofn yw hwn, pe byddai y ffeithiau fel y mae ef yn dywedyd; ond y maent yn hollol wahanol, oblegid er fod rhan o'r ddalen islaw y testun wedi ei rhwbio a'i threulio gan y rhai a arferent chwydd-wydrau trwy osod eu dwylaw i orphwys ar y memrwn. Nid oes un ran o'r cyssyllt iad na ellir yn rhwydd ei ddarllen, oddieithr rhai *strokes* ar ddechreu rhai o'r llinellau." Textual Crit. p. 487. Nid oeddwn wedi darllen Symbol Crit. Griesbach, ar y pryd, ac nid oedd a fynwn ag ef, gan mai ei Dest. Groeg oeddwn yn gymeryd yn *standard*, fel y gallasai Mr. J. weled oddiwrth fy

nyfyniadau. Nid oes neb heb ei ffaeleddau.(*b*) Er hyny nid wyf yn meddwl ymadael ag ef lle y bydd efe yn iawn. Dyma yw fy mherthynas i â phob beirniad. Gyda golwg ar yr hyn a ddywed Mr. J., fod Griesbach yn addef nad yw'r ysgrif hon yn bleidiol iddo ef, &c., yr wyf wedi troi i tud. 29 a'r Gyf. I. o'r Symb. Crit. Darllenais y dernyn ragor nag unwaith, a rhaid i mi ddywedyd fy mod yn gwahaniaethu oddiwrth Mr. J. o barthed ei feddwl. Yn y cyfryw amgylchiad nid oes dim i'w wneyd ond i Mr. J. roddi cyfeithiad o hono a'r Lladin ar ei ol, i ddarllenwyr dysgedig yr *Ymofynydd* gael barnu rhyngom ar hyn o beth. Yr wyf yn addaw na fydd i mi i gecru ynghylch geiriau os y bydd ei feddwl yn deg; gan na fyddai ymddwyn yn amgen ddim ond Jones *versus* Evans ynghylch eu hysgoleigiaeth. Felly y mae'r ddadl o'r diwedd yn debyg o droi allan yn lled ddysgedig.

I'w barhau.

(*b*) Nid ffaeledd mwyaf Griesbach yma yw dywedyd ei fod yn benderfynol ynghylch darlleniad y llaw-ysgrif; oblegid nid ar gyfiwr na darlleniad presenol y llaw ysgrif y mae efe yn sylfaenu ei benderfyniad, eithr ar y tystion eraill perthynol i deulu Alexandria. Ond ei gamsyniad ef yw dywedyd nad yw'r llaw-ysgrif yn ddealladwy yn awr.

Hanesion Cartrefol a Thramor.

AGORIAD Y SENEDD.

YMGYFARFU y senedd newydd—y 6fed dan y Frenhines Victoria—dydd Mawrth, Mai 31ain, Treuliwyd yr wythnos gyntaf gyda'r gwaith o gymeryd y llwon gofynedig oddiwrth y seneddwyr newydd a pharotoadau eraill. Ar y 7fed o Fehefin agorwyd yr eisteddfod, gyda'r rhwysg arferol, gan y Frenhines yn bersonol; gydag araeth hefyd, fel y mae'r arfer ar y fath achlysur. Nid oedd araeth ei Mawrhydi yn cynnwys dim ag sy'n gofyn am sylw neillduol. Gwcinyddiaeth Arg. Derby oedd wedi cyfansoddi'r araeth; ac ni wyddent hwy yn iawn pa beth i'w ddywedyd. Yr oedd achos da ganddynt i ofni y buasent yn fuan i gael eu troi i maes o'u swyddau. Gwyddent eu bod yn sefyll ger bron y wlad fel rhai ag oeddent trwy ddadgorphori'r senedd, er mwyn amcanion hunanol a phleidgarol, nid yn unig wedi achosi colled o amser gwerthfawr, ynghyd a therfysg a chost dirfawr yn ddiraid, ond hefyd wedi gadael y Frenhines a'r wladwriaeth, am dymor, yn amddifad o gynghor a chynhorthwy seneddol ar gyfnod pwysig a pheryglus dros ben.

Cwymp Gweinyddiaeth Arg. Derby.

Cydsyniodd Ty yr Arglwyddi â'r annerchiad a gynnygiwyd ar araeth ei Mawrhydi; ond nid felly y gwnaeth Ty y Cyffredin; eithr cynnyg gwrthwynebiad a wnaethant, mewn ffordd o welliant (*amendment*); ond i'r perwyl hyn, sef nad ydoedd Gweinyddiaeth Iarll Derby yn teilyngu ymddiried y Ty. Wedi areithio am ddiwrnodau o blaid ac yn erbyn y gwelliant, pan rannwyd y Ty tua 2 o'r gloch bore dydd Sadwrn (Mehefin 11eg) cafwyd fod

Dros y Gwelliant	323
Yn ei erbyn	310
Mwyafrif yn erbyn y Wein.	13

Y canlyniad ydoedd i'r Weinyddiaeth, wedi ymgyfarfod bore dydd Sadwrn, gyduno i roddi eu swyddau i fynu. Ar hyn darfu'r Frenhines anfon am Iarll Granville, a cheisio ganddo ef ffurfio gweinyddiaeth. Yntau wedi ymgynghori â'i gyfeillion a fynegodd ei fod ef yn analluog i'r gorchwyl; ond cynghorodd ei Mawrhydi i anfon am Arglwydd Palmerston; ac felly y gwnaethpwyd. Erbyn hyn yr oedd Arg. Palmerston ac Arg. J.

Russell, ac eraill o flaenoriaid gwahanol ganghenau o blaid y *Liberals* wedi cydgynghori a chyduno â'u gilydd. Ac ni fuwyd yn hir cyn ffurfio gweinyddiaeth newydd, pa rai ydynt yn awr wedi cael eu cymmeradwyo, a'u gosod yn eu gwahanol swyddau gan y Frenhines. Rhoddwn y *list* heb gynnyg ei gwneuthur yn llai dealladwy trwy gyfleithu enwau'r swyddau i'r Gymraeg. Fe wel ein darllenwyr fod y Weinyddiaeth bresenol (er fod rhai o honynt yn gwahaniaethu yn eu golygiadau ar rai pynciau) yn cynnwys rhai o wlad-weinyddion enwoccaf Prydain Fawr. Un o'r pethau mwyaf pwysig, gyda golwg ar sefyllfa Ewrop a rhyddid yr Italiaid, a chadw ein gwladwriaeth rhag myned i ryfel o'r herwydd ydyw, fod Arg. J. Russell wedi ei appwyntio i'r swyddogaeth Dramor. Ennillodd Mr. Gladstone air da iddo ei hun pan fu o'r blaen yn y swydd a leinw yn bresenol.

Y Cabinet Newydd.

FirstLord of theTreasury..	Lord Palmerston
Lord High Chancellor....	Lord Campbell
Secretary of State for Foreign Affairs	Lord J. Russell
Lord Privy Seal	TheDuke of Argyll
Secretary of State for the Colonies	The Duke of Newcastle
Secretary of State for the Home Department....	Sir G. C. Lewis
Secretary of State for the War Department	Right Hon. S. Herbert
Chancellor of the Exchequer	Right Hon. W. E. Gladstone
Secretary of State for India	Sir Charles Wood
First Lord of the Admiralty	The Duke of Somerset
President of theCouncil..	Earl Granville
Postmaster General ...	Earl of Eglin
President of the Board of Trade..... ..	Mr. R. Cobden
President of the Poor Law Board.....	Mr. Milner Gibson
Secretary for Ireland....	Mr. Cardwell
Chancellor of the Duchy of Lancaster	Sir G. Grey

Deallwn fod Iarll Carlisle wedi ei appwyntio yn Lord Lieutenant of Ireland; a bod Sir B. Hall wedi cael ei ddyrchafu i'r Bendefigaeth dan y titl o Barwn Llanofer.

Nid oes dim braidd wedi cael ei wneuthur yn y senedd oddiar gyfnewidiad y Weinyddiaeth; gan ei fod yn angenrheidiol i'r gweinyddwyr newydd gael eu hail-ethol cyn y gallent gymmeryd eu llefydd yn Nhy y Cyffredin; ac yn ol trefn y senedd, nid ellid rhoddi y *writs* allan am etholiad newydd cyn y 22ain. Fel hyn collir rhagor o amser gwerthfawr.

Y mae Mr. Cobden wedi dychwelyd o America. Cyrhaeddodd Lynlleifiad ar y 29ain o Fehefin, lle y cafodd dderbyniad hynod groesawus. Cynnaliwyd cyfarfod cyhoeddus yn ddioed yn y Caledonian Rooms, pryd y ffurfiwyd ac y cyflwynwyd annerchiad iddo yn arganmol ei yrfa seneddol flaenorol, ac yn hyderu y parha etto i lesoli ei wlad yn y swydd a bennodwyd iddo yn y Weinyddiaeth newydd. Mewn attebiad dywedai Mr. Cobden na wyddai efe ddim am y cyfnewidiad oedd wedi cymeryd lle yn y senedd cyn dyfod i Lynlleifiad,—ei fod newydd dderbyn llythyr oddiwrth Arg. Palmerston, yn cynnyg iddo y swydd a grybwyllid yn yr annerchiad, ac mai ei ddyledswydd gyntaf oedd atteb y cyfryw lythyr. Sicrhai ei fod, gyda golwg ar y rhyfel, am bleidio perffaith *neutrality*.

Y RHYFEL YN ITALI.

Y mae Louis Napoleon a byddinoedd Ffrainc a Sardinia, wedi bod hyd yn hyn yn bur llwyddiannus mewn pob ymgyrch yn erbyn yr Awstriaid. Maent wedi dangos gwell dyfais, a mwy o fedrusrwydd, os nid mwy o wroldeb na'u gwrthwynebwyr gyda gwell parotoadau Y mae'r Awstriaid, beblaw hyn, yn rhyfela dan yr anfantais neilldnol o fod teimladau y trigolion yn bur elyniaethol iddynt. Ymosodwyd arnynt yn annisgwyliadwy yn Palestro, lle colledwyd hwynt yn ddirfawr, a gorfu iddynt gilio yn ol ar y Ticinio. Cyn pen wythnos wedi'n, ar y 4edd o Fehefin, darfu'r Ffrancod groesi'r Ticinio, a bu brwydr boeth iawn rhwng y ddwy fyddin yn Magenta, 10 milldir i Milan, ac ennillodd y Ffrancod y fyddugoliaeth. Yr oedd hon yn frwydr benderfynol. Dywedir i'r Awstriaid golli 15 mil yn lladdedigion neu wedi eu clwyfo, a gadael 5000 yn garcharorion yn llaw'r gelyn. Oddiar hyn y maent wedi bod ar lawn enciliad tuag at eu hamddiffynfeydd ar y Mincio, a byddinoedd Ffrainc a Sardinia ar eu hol. Yn y cyfamser y mae Garibaldi wedi bod yn dra llwyddiannus yn eu herlyn yn ngogledd-dir Lombardy.

Rhoddir y newydd yn y *Times* am y 25ain fod hysbysiad wedi cyrhaedd Paris y bore hwnw, oddiwrth yr Ymerawdwr, dyddiedig o Cavriana, ar y Mincio, am frwydr yno y dydd o'r blaen (y 24ain), a'r fyddugoliaeth etto gyda'r Francod. Dywed yr hysbysiad i'r frwydr barhau o 4 o'r gloch yn y bore hyd 8 yn y prydnawn

Y mae yn eithaf tebygol bellach y llwyddir i yrru'r Awstriaid i maes o Itali. Ond beth wedi'n? Rhaid gadael i amser atteb y cwestiwn. Ond yr y'm yn gobeithio y bydd Ymherawdwr Ffrainc i sefyll wrth ei addewid, i beidio cario y rhyfel ymlaen yn mhellach na hyny. Pa fodd bynag, mae'r cyfnod, wrth bob argoelion, yn nesau pan y rhoddir cyfle teg i lywodraeth Prydain Fawr ddyfod yn y blaen i wneud rhyw gynnyg effeithiol tuag at osod terfyn ar y rhyfel presennol, ac adsefydlu heddwch cyffredinol. Disgwyliwn yn bryderus pa beth a wna Arglwydd J. Russell yn yr amgylchiad pwysig.

Y CYFANDIR.

Y mae Rwssia, fel y gwyddys, yn ochri gyda Ffrainc; ond nid oes neb yn meddwl ei bod felly o un dymuniad i roddi rhyddid i'r Italiaid. Y mae, modd bynag, wedi gorchymyn i'w swyddogion mewn gwledydd eraill i fynegi ei bod hi yn gwbl dros gyfyngu y rhyfel presenol i Itali, ac ei bod yn penderfynu bod yn *neutral*. Ond ymddengys nad oes gan lywodraethau Germany nemawr ffydd yn mhroffesiadau Ymherawdwr Ffrainc. Y mae agwedd Prwssia, ar y pryd hwn yn fygythiol: y mae wedi gofyn caniatad i arwain 31000 o wyr trwy Hanover tua glenydd y Rhine, yr wythnos gyntaf yn Ngorphenaf. Mae hefyd wedi hysbysu ei bod am gael cynnadledd er adferyd a sefydlu heddwch, ond ar delerau ag y mae yn mron yn sier na chydsynia Ffrainc a hwynt. Pa beth fydd y pendraw o hyn, pwy all ragweled? Dichon y bydd i ddisgwyliadau mis Gorphenaf ddwyn i'r amlwg bethau a fyddant o'r pwys mwyaf nid yn unig i Ewrop ond i'r byd. Gobeithiwn y bydd Arg. John Russell yn fwy llwyddiannus nag y bu Iarll Malmsbury, ac y bydd llywodraeth Lloegr, nid yn unig i ymgadw rhag mynedi i ryfel, a hyny heb fradychu achos rhyddid, eithr y bydd iddynt hefyd ofalu am bethau yn y fath drefn ag y gallont gymhell y pleidiau sydd mewn rhyfel i wneud heddwch â'u gilydd ar delerau teg a chyfiawn.

MARWOLAETHAU.

Mawrth y 29ain, yn 19 mlwydd oed, yn nhŷ ei brawd yn nghyfraith Mr. John Jones (Eiddil Glancynon), Aberdar, Mary, merch ieuangaf y diweddar Morgan a Mary Morgans, gynt o'r Ysgubor Wen, o'r un lle. Cafodd ei chystuddio yn drwm am tua phedwar mis, a bu yn amyneddgar iawn trwy ei holl boen. Rhoddai ei phwys ar addewidion ei Thad Nefol, a'i nyder yn ei ddoethineb ef dan bob amgylchiad. Y dydd lau canlynol, ymgasglodd tyrfa luosog i'w hebrwng i "dŷ ei hir gartref," tua Hen Eglwys y plwyf; ac wrth fyned awd i'r Hen Dŷ-cwrdd, pryd y cafwyd pregeth gan Mr. Jones, yn yn ol ei dymuniad ei hunan, oddiwrth eiriau'r pregethwr. "Cofia yn awr dy Greawdwr," &c., yn yr hon y taer gymhellai y gwrandawyr i gofio eu Creawdwr, yn enwedigol yr ifainge yn nyddiau eu hieuenctyd; gan mai hwnw yw y cyfnod mwyaf cyminwys i ddyn "drysori a 'mofyn sail dda erbyn yr amser sydd ar ddyfod gan gymmeryd gafael yn y bywyd tragwyddol." Diau, yn ol tystiolaeth y gwrandawyr, cafwyd pregeth gymmwysiadol ar yr achlysur. Yr oedd yr ymadawedig yn ferch ieuange rinweddol a chariadus yn ystod ei thaith fer yma yn y byd. Caffai ei pharchu gan bawb a'i hadwaenai, wrth weled gwylder ei hymarweddiad. Ymunodd â chynnulleidfa yr Hen Dŷ-cwrdd tua blwyddyn cyn ei marwolaeth; a chredai mai y ffydd Undodaidd yw yr unig athrawiaeth sydd yn werth i ddyn ymorphwys arni am wir gysur yma a dedwyddwch tudraw i'r bedd. Gellir dywedyd am ein chwaer—"Yr hyn a allai hi a'i gwnaeth." Heddwch i'w llwch!

SIENCYN WILLIAM.

Mehefin y 15fed, yn 85 mlwydd oed, Thomas Evans o'r Wig—hen wr tawel, yr hwn a berchid yn fawr ac yn gyffredin am ei fywyd dichlynaidd, a'i ffyddlondeb. Bu yn aelod hardd gyda chynnulleidfa'r Wig dros 35 mlynedd. Gorphenodd ei yrfa mewn tangnefedd, wedi dwyn tystiolaeth gyson a ffyddlon hyd y diwedd dros yr athrawiaeth am "un Arglwydd, un ffydd, un bedydd, ac un Duw a Thad oll." J. C.

Barddoniaeth.

MYFYRDOD MEWN MYNWENT.

"W le fynwent, olaf anedd,
Gwely llygredd gwaela' llun,
Lle mae diwedd dynol fawredd
A phrydferthwch marwol ddyn."

Y MAE 'r meirw oll sydd yma
Mewn distawrwydd yn gytun,
Heb ymryson gan un geneol,
Oll yn cysgu'r ddistaw hun.

Nid oes dim gwahaniaeth yma
Rhwng y brenin uchel fri
A'r cardotyn gwaelu'i agwedd;
Maent oll fel brodyr o'r un bru.

Wele gareg, wych o gerfiad,
Hardd i'r olwg ydyw hon;
Ond mae'r hanes roddir arni
'N chwalu'n lan y galon don.

Gweled fod yr ieuainc heini,
Fuasai'n flodau hardd i'n gwlad,
Wedi myned lawr i'r beddrod,
A'u holl harddwch 'nawr dan dra'd.

Mae pob oedran yma'n gydradd,
Yn eu distaw wely pridd,
Mewn distawrwydd heb ddim blinder,
Pob llonyddwch yma sydd.

Y mae'r doeth un fath a'r annoeth,
Y cryf a'r cadarn fel y gwan,
Wedi eu cloi dan ddwylaw'r angau,
Heb ddim cyffro mewn un man.

Hyd nes seinio'r udgorn olaf
I ddihuno pawb o'r pridd,
Gael eu gwisgo ag anfarwoldeb,
Heb ddim nos, ond bythol ddydd.

D. DANIEL.

Caeglas, 1859.

Dyma fan a llan mae llu—o Gymry,
Ac amryw, yn cysgu;
Yn y llwch y mae'n llechu
Luoedd o filoedd a fu.

Y diweddar DL. DDU,
o Geredigion.

MAWRHAWN EIN HEINIOES.

Freu't euch des Lebens.

MAWRHAWN ein heinioes
Tra dalio'n frwd ei dân!
Tynwn y rhosyn
Cyn gwywo yn lân!

Pa'm carwn ofal deifiol byd,
A'i ddyrus ddrain, sy'n chwerwi'n bryd,
Gan esgeuluso'i flodau i gyd,
Sy'n perarogli'n llwybrau?
Mawrhawn, &c.

Os gwisga'r wybren gaddug du,
Trwy'r hwn y gwibia'r melut yn llu,
A heibio'r storm—ac O mor gu
Brydnawn y gwena'r heulwen!
Mawrhawn, &c.

A'n gwanwyn heibio yn y fan,—
Tra eto'n para gwnawn ein rhan,
I enill hedd i'r fynwes wan,
O wenau haul boddlonrwydd!
Mawrhawn, &c.

Gan hyny ffoed gofalon ffol,
A drain gwenwynig drown o'n hol;
I'r frwyn, a'r galon lon'd y gol,
Nes cael i'r bedd encilio.
Mawrhawn, &c.

D. L. M.

DAU ENGLYN

Ar "Faner Heddwch," buddugol yn Eisteddfod Caerdydd, 1858

Wele i fynu loyw "Faner—Heddwch,"
Yn hoeddi cyfiawnder;
A'i hedyn yn ngwawl hyder,
Yn dwyn nawdd yn enw Duw Ner.

Ei harwydd yw llwydd a gwellhad;—nofio
Yn nhangnefedd cariad;
A'i gwedd dlos yn ddangosiad,
I attal briw teulu brad.

Aberdar. EIDDIL GLAN CYNON.

YSGRIFEN-FEDD MERCH FECHAN.

Ei anwylyd Ion a alwodd—o'i loes;
I'w lys 'i hun a'i dygodd,
Yn eorth i fyw wrth ei fodd;
Ar lys angau 'r lwys sangodd.

GM. BRYCHEINIOG.

EMYN.

Clod i Dduw am ei Diriondeb.

Hyd orsedd yr anfeidrol Fod
Dyrchafer clod yn llafar:
Ymgrymwn i lywodraeth gref
Llywiawdwr nef a daear.

Efe a wnaeth y dyfnfor maith,
A'r ser y'nt waith ei fysedd;
Dan nodded hwn yr y'm bob awr,
Gwithrychau 'i fawr drugaredd.

Bendithion fel defnynau'r gwlith
O'r nef i'n plith dihidla:
Ei bobl ef ydym—gwrendy'n cwyn,
A defaid mwyn ei borfa.

Er mynych gwrdd â bleiddiaid blin,
Cas, gerwin, i'n gwasgaru,
Ni dde'wn cyn hir o nerth i nerth
O'r anial certh er hyny.

Awn yn y blaen gan ddwyn y groes
Tra pery oes annedwydd:
Mae gwobrwy i'r ufuddion glan
Yn ngwlad y gân dragywydd.

Fe wawria'r boreu, mae gerllaw,
I'r ffyddion daw dedwyddyd;
Gorphwysant mewn tangnefedd gwir
Ar dawel dir y bywyd.

Reuben, Brydydd y Coed.

HUNAN-FYFYRDOD,

Wrth orwedd ar y gobenydd.

Ar Dduw Ion yr eiddunaf—i'm gwylio
Heno tra yr hunaf;
Ar ei bwys y gorphwysaf,
A'm gofal dan ofal Naf.

Galawaf am ddiogelu—rhai anwyl,
Tra hunant o'm deutu;
Difesur f'ai'm cysur cu,
Yn nhawelwch fy nheulu.

O law anwyl ddoeth Ragluniaeth—beunydd
Derbyniais yn helaeth,
Bu i mi fwynhau pob maeth,
A llawenydd gwerth lluniaeth.

Dyolwch i'm Duw'n daliad—a roddaf
O wreiddiau pur deimlad;
Canmol Ner, wiw dyner Dad,
Fy nhestyn f'o yn wastad.

D'wedaf am waith Duw hyd fy medd—gwir-
Ei gariad diddiwedd; [iwyf,
Myfyrio am ei fawredd,
A moli Ion rydd im' wledd.

Nid byr hud golud na gwaelion—bethau,
Ond bythol sylweddion,
Garwyf er meddu'r goron,
I'r iawn sydd yn nheyrnas Ion.

Blaenwaun. D. J.

DAU ENGLYN I'R EHEDYDD.

Un o destunau Eisteddfod Myddfai, Mawrth Pasg, 1859.

Ar ei aden yr Ehedydd—a fyn
Y nwyfre'n obenydd;
Emyn der yn min y dydd,—
Alawon o lawenydd.

Geilw'r diog gyda'r gilydd,—a deffry
Wyr y dyffryn llonydd;
Ei odl ber mor hyawdl bydd,
Lwys farddol, las foreuddydd.

"Goreu Gallwn,"
Sef Rhydderch Farfgoch,
Llandybie.

PENYBONT: ARGRAFFWYD GAN WILLIAM LEYSHON.